WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol 2014-15

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Cyhoeddwyd: Awst 2015
Cyfeirnod y ddogfen: 361A2015



Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Non Jenkins, Dave Wilson ac Allison Rees o dan gyfarwyddyd Alan Morris.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu at ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

# Cynnwys


Adroddiad cryno 4

Diben yr adroddiad hwn 4

Gwaith archwilio perfformiad 2014-15 5

Yn seiliedig ar waith Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, mae'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn y gallai'r Cyngor gydymffurfio â gofynion y Mesur Llywodraeth Leol yn ystod 2015-16 ar yr amod y cynhelir y momentwm cyfredol 7

Penawdau – crynodeb o'r prif ganfyddiadau 8

Argymhellion 11

Adroddiad manwl 13

Y defnydd o adnoddau 14

Llywodraethu 17

Perfformiad 26

Atodiadau

Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn 35

Atodiad 2 – Archwiliad o Gynllun Gwella Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent 2014-15 36

Atodiad 3 – Archwiliad o asesiad o berfformiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent 2013-14 38

Atodiad 4 – Llythyr Archwilio Blynyddol 40

Atodiad 5 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2014-15 43

Atodiad 6 – Gwybodaeth ddefnyddiol am adnoddau Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent 48

# Adroddiad cryno

## Diben yr adroddiad hwn

1 Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio trefniadau cynllunio ac adrodd ar welliant cynghorau, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru, ac asesu a fydd pob awdurdod yn cyflawni dyletswyddau statudol yn ymwneud â gwelliant parhaus[1]. Cyflawnwyd y gwaith hwn ar ran yr Archwilydd Cyffredinol gan staff Swyddfa Archwilio Cymru. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o fewn llywodraeth leol.

2 Yn ogystal, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal asesiad corfforaethol trylwyr ym mhob awdurdod ar sail gylchol (unwaith bob pedair blynedd o leiaf ar hyn o bryd). Yn y cyfamser, yn ogystal ag archwilio trefniadau cynllunio ac adrodd ar welliant, bydd Swyddfa Archwilio Cymru, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, yn olrhain datblygiadau ac yn cyflawni gwaith asesu pellach sy'n canolbwyntio ar nifer o themâu allweddol, a ddatblygir mewn trafodaeth â phob awdurdod.

3 Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn crynhoi'r gwaith archwilio a wnaed yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (y Cyngor) ers cyhoeddi'r adroddiad diwethaf o'r fath ym mis Mehefin 2014. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys canfyddiadau'r adolygiad Herio a Llywodraethu Mewnol - Cam Dau a gynhaliwyd gennym ym mis Chwefror 2015 a hefyd grynodeb o ganfyddiadau allweddol adroddiadau a gyhoeddwyd gan 'reoleiddwyr perthnasol', sef: Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC); Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn); Cynghorwyr Llywodraeth Cymru; a Chomisiynydd y Gymraeg. Serch hynny, nid yw'r adroddiad hwn yn adolygiad cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau a geir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd o fewn y Cyngor gan gyrff adolygu allanol perthnasol ac, oni nodir fel arall, yn adlewyrchu'r sefyllfa ar yr adeg pan gafodd gwaith o'r fath ei gwblhau.

4 Gan ystyried y gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2014-15, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi, yn yr adroddiad hwn, a yw o'r farn y bydd y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2015-16.

5 Ni ddylid ystyried bod y datganiad hwn yn rhoi barn bendant am sefyllfa sefydliad nac yn rhagfynegi ei lwyddiant yn y dyfodol. Yn hytrach, dylid ystyried ei fod yn rhoi barn am y graddau y mae'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn rhesymol gadarn i'r graddau y gellir nodi hynny ar sail y gwaith a gyflawnwyd.

6 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn post@archwilio.cymru neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

1 Nodir dyletswyddau a gofynion ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur).

## Gwaith archwilio perfformiad 2014-15

7 Wrth bennu'r amrywiaeth o waith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ystyried graddau'r wybodaeth archwilio ac arolygu a gasglwyd yn ogystal â ffynonellau eraill o wybodaeth a oedd ar gael, gan gynnwys systemau adolygu a gwerthuso'r Cyngor ei hun. Yn ystod 2014-15, gwnaethom gyflawni gwaith asesu gwelliant o dan dair thema: y defnydd o adnoddau; llywodraethu; a pherfformiad.

8 Nodir y gwaith a gyflawnwyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, gan gynnwys gwaith y 'rheoleiddwyr perthnasol', isod:

| Enw'r Prosiect | Disgrifiad byr | Dyddiadau [pryd y cyflawnwyd y gwaith] |
|---|---|---|
| **Adolygiad o Drefniadau Herio a Llywodraethu Mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent - Cam 1** | Adolygiad sy'n canolbwyntio ar fapio'r trefniadau herio a llywodraethu mewnol a gyflwynwyd gan y Cyngor i ymdrin â'r Argymhellion Statudol a wnaed gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Archwilydd Penodedig ym mis Hydref 2013, a ph'un a allai'r trefniadau hyn sicrhau gwelliannau cynaliadwy i wasanaethau yn 2014-15 a thu hwnt. | Mehefin 2014 |
| **Adolygiad o Drefniadau Herio a Llywodraethu Mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent - Cam 2** | Aeth ail gam yr adolygiad o drefniadau herio a llywodraethu mewnol ati i asesu p'un a fu'r trefniadau yn effeithiol wrth alluogi'r Cyngor i reoli ei Raglen Trawsnewid Blaenau Gwent (y Rhaglen) a ph'un a allai'r Rhaglen gyflawni'r canlyniadau bwriadedig yn effeithiol. Cyflwynir adroddiad ar ganlyniadau ail gam yr adolygiad hwn yn y Cynllun Gwella Blynyddol hwn. | Chwefror 2015 |
| **Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol** | Rhoi barn ynghylch pa un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2014 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny. | Medi 2014 |
| **Asesiad Cynllunio Ariannol Swyddfa Archwilio Cymru** | Adolygiad o sefyllfa ariannol y Cyngor a sut mae'n cyllidebu ac yn cyflawni'r arbedion gofynnol. | Mai i Awst 2014 |
| **Archwiliad 'Cynllun Gwella' Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru** | Adolygiad o gynlluniau cyhoeddedig y Cyngor ar gyfer cyflawni ei amcanion gwella. | Gorffennaf 2014 |

| Enw'r Prosiect | Disgrifiad byr | Dyddiadau [pryd y cyflawnwyd y gwaith] |
|---|---|---|
| **Archwiliad o 'Asesiad o Berfformiad' Swyddfa Archwilio Cymru** | Adolygiad o asesiad o berfformiad cyhoeddedig y Cyngor. | Tachwedd 2014 |
| **Adolygiad o Ansawdd Data** | Adolygiad o sampl bach o ddangosyddion perfformiad cofnodedig er mwyn asesu cywirdeb data. | Chwefror 2015 |
| **Adolygiad o drefniadau Diogelu'r Cyngor gan gynnwys ei bolisi a'i drefniadau chwythu'r chwiban** | Adolygiad o drefniadau'r Cyngor i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau diogelu ar waith a ph'un a yw'n cydymffurfio â hwy. | Mawrth i Fai 2014 |
| **Cyflawni â Llai - Iechyd yr Amgylchedd** | Y gyntaf o blith cyfres o astudiaethau yn ystyried sut roedd cynghorau yn llwyddo i gyflawni â llai. Roedd yr astudiaeth hon yn ystyried effaith llai o adnoddau ar allu'r Cyngor i gyflawni ei rwymedigaethau statudol mewn perthynas â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd. | Rhagfyr 2014 |
| **Rheoli effaith Diwygiadau Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru** | Adolygiad o'r trefniadau i reoli effaith y diwygiadau lles. Cafodd y Cyngor hefyd adborth lleol yn ogystal â'r adroddiad cenedlaethol. | Rhagfyr 2013 i Fawrth 2014 |
| **Cynaliadwyedd Gwasanaethau Cymdeithasol** | Adolygiad ledled Gwent, a gynhaliwyd gydag AGGCC, o gynaliadwyedd Gwasanaethau Cymdeithasol, gan ystyried perfformiad, trefniadau rheoli a gwariant refeniw dros gyfnod o sawl blwyddyn. | Ebrill 2014 i Ionawr 2015 |
| **Adroddiad Gwerthuso Perfformiad AGGCC 2013-14** | Adolygiad Blynyddol o swyddogaeth Gwasanaethau Cymdeithasol/Gwasanaethau Plant y Cyngor. | Hydref 2014 |
| **Arolygiad Cenedlaethol AGGCC: Diogelu a Chynllunio Gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal sy'n ymddwyn mewn ffordd sy'n eu gwneud yn agored i niwed neu a allai beri risg - Arolygiad o Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent** | Asesiad o ansawdd Diogelu a Chynllunio Gofal. | Chwefror 2014 |
| **Cynghorwyr Llywodraeth Cymru** | Ymweliadau Monitro | Mehefin 2014 a Hydref 2014 |

| Enw'r Prosiect | Disgrifiad byr | Dyddiadau [pryd y cyflawnwyd y gwaith] |
|---|---|---|
| **Estyn - Gwasanaeth Awdurdodau Addysg Lleol** | Ymweliadau Monitro | Gorffennaf a Thachwedd 2014 |
| **Comisiynydd y Gymraeg** | Adolygiad o ddull gweithredu'r Cyngor mewn perthynas â'r Gymraeg. | Tachwedd 2014 |

## Yn seiliedig ar waith Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, mae'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn y gallai'r Cyngor gydymffurfio â gofynion y Mesur Llywodraeth Leol yn ystod 2015-16 ar yr amod y cynhelir y momentwm cyfredol

9 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

a gwnaeth y Cyngor gynnydd calonogol o ran gwella trefniadau rheoli ariannol yn dilyn argymhellion statudol a wnaed gan yr Archwilydd Penodedig ac Archwilydd Cyffredinol Cymru yn 2013 ond roedd angen iddo sicrhau y caiff y trefniadau hyn eu rhoi ar waith yn llawn a'u bod yn cyflawni'r canlyniadau bwriadedig;

b gwnaeth y Cyngor gynnydd sylweddol, o sefyllfa arbennig o wan yn 2013, i roi trefniadau llywodraethu ar waith ac i gefnogi penderfyniadau a wnaed er mwyn sicrhau gwell canlyniadau, ond roedd angen gwneud rhagor o waith; a

c gwellodd y Cyngor effeithiolrwydd ei drefniadau ar gyfer monitro a rheoli gwelliannau ond nid oeddent yn gyson nac yn cael eu rhoi ar waith ym mhob maes gwasanaeth.

## Penawdau - crynodeb o’r prif ganfyddiadau

10 Mae’r tabl isod yn crynhoi canfyddiadau allweddol adroddiadau a gyhoeddwyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf gan Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC, Estyn, Cynghorwyr Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg.

| | |
|---|---|
| **Archwilio cyfrifon** | Cyhoeddodd yr Archwilydd Penodedig farn ddiamod ar ddatganiadau cyfrifyddu’r Cyngor ar 8 Hydref 2014 gan ddatgan eu bod yn cyflwyno darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 (gweler Atodiad 4). |
| **Archwilio trefniadau cynllunio ac adrodd ar welliant** | Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru dystysgrifau cydymffurfiaeth yn datgan bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur (gweler Atodiadau 2 a 3). |
| **Y defnydd o adnoddau** | Gwnaeth y Cyngor gynnydd calonogol o ran gwella trefniadau rheoli ariannol yn dilyn argymhellion statudol a wnaed gan yr Archwilydd Penodedig ac Archwilydd Cyffredinol Cymru yn 2013 ond roedd angen iddo sicrhau bod y trefniadau hynny yn cael eu rhoi ar waith yn llawn er mwyn cyflawni’r canlyniadau bwriadedig.<br>Swyddfa Archwilio Cymru - Chwefror 2015<br><br>Nododd cofnodion y Cyngor cyn 2013-14 nad oedd yn gallu gweithredu o fewn ei gyllideb gyda rhai gwasanaethau allweddol yn gorwario a chyllidebau yn cael eu mantoli drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn.<br><br>Roedd y Cyngor wedi cyflwyno cynlluniau a threfniadau i sicrhau arbedion sylweddol yn 2014-15 a thu hwnt, ac roedd angen iddo barhau i adolygu a gwerthuso effeithiolrwydd y trefniadau hyn er mwyn iddo gyflawni ei flaenoriaethau strategol a bod yn gynaliadwy yn ariannol.<br>Gellir gweld yr adroddiad ar gydnerthedd ariannol yma.<br><br>Parhaodd y Cyngor i ddangos bod ganddo systemau a phrosesau cynaliadwy ar waith i reoli ei gyllideb yn effeithiol ac i gynllunio ei gyllid yn y tymor hwy.<br>Cynghorwyr Llywodraeth Cymru - Mehefin 2014 |
| **Llywodraethu** | Roedd llawer o drefniadau i roi Rhaglen Trawsnewid Blaenau Gwent ar waith a chyda momentwm parhaus i roi trefniadau pellach ar waith, roedd potensial y gallai’r trefniadau hyn sicrhau gwelliant parhaus.<br>Swyddfa Archwilio Cymru - Medi 2014<br>Trefniadau Llywodraethu a Herio mewnol – Rhaglen Trawsnewid Blaenau Gwent (Cam Un) |

Mae trefniadau herio a llywodraethu mewnol y Cyngor yn cael eu rhoi ar waith i'w helpu i gyflawni canlyniadau bwriadedig Rhaglen Trawsnewid Blaenau Gwent, ond mae angen gwneud rhagor o waith.

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol, o sefyllfa arbennig o wan, i roi trefniadau llywodraethu ar waith ac i gefnogi penderfyniadau a wnaed er mwyn sicrhau gwell canlyniadau, ond mae angen gwneud rhagor o waith.

Llwyddodd y Cyngor i gyflawni'r arbedion a nodwyd yn y Rhaglen ond nid oedd rhai o'r arbedion fel y cynlluniwyd yn wreiddiol.

Mae'r Cyngor wedi gwella effeithiolrwydd ei drefniadau ar gyfer monitro a rheoli gwelliannau ond nid yw hyn yn gyson nac wedi'i roi ar waith ym mhob maes gwasanaeth.
Cynhwyswyd yr adroddiad o fewn y Cynllun Gwella Blynyddol hwn.

Parhaodd y Cyngor i wneud cynnydd derbyniol wrth ymateb i'r heriau a wynebir ganddo.
Cynghorwyr Llywodraeth Cymru - 9 Hydref 2014

Cyflwynodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad ar drefniadau'r Cyngor i helpu i ddiogelu plant ym mis Hydref 2014:
Roedd trefniadau llywodraethu, atebolrwydd a rheoli'r Cyngor ar gyfer goruchwylio ei gyfrifoldebau diogelu plant yn ddigonol ar y cyfan, ond gellid gwneud rhai gwelliannau.
Roedd gan drefniadau'r Cyngor ar gyfer monitro a gwerthuso ei gyfrifoldebau diogelu plant rai gwendidau yr oedd y Cyngor yn mynd i'r afael â hwy.
Roedd dull y Cyngor o nodi gwelliannau o ran ei drefniadau diogelu a gweithredu arnynt yn cynnwys rhai gwendidau yr oedd y Cyngor yn mynd i'r afael â hwy;
roedd y Cyngor yn adolygu ei bolisi chwythu'r chwiban ond roedd angen atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer gweithredu a rheoli'r polisi. Swyddfa Archwilio Cymru - Hydref 2014.
Gellir gweld yr adroddiad ar ddiogelu yma.

| Perfformiad | Gwnaeth yr awdurdod lleol ddechrau da wrth ymdrin ag argymhelliad Estyn ar gyfer gwella trefniadau diogelu yn dilyn ei harolygiad o'r awdurdod lleol yn 2013.<br>Estyn – [Gorffennaf 2014]<br><br>Araf fu cynnydd yr awdurdod lleol wrth ymdrin â phedwar o argymhellion Estyn.<br>Estyn - Rhagfyr 2014. Gellir gweld llythyr canlyniad yr Ymweliad Monitro yma.<br><br>Yn 2013-14, bu newidiadau sylweddol o fewn y gwasanaethau cymdeithasol ar lefel gorfforaethol ac ar lefel adrannol. Penodwyd penaethiaid gwasanaeth newydd ar gyfer gwasanaethau oedolion a gwasanaethau plant ac yn 2013-14, daeth effaith y trefniadau arfaethedig i ailstrwythuro gwasanaethau i'r amlwg, ynghyd â'r angen i gyflawni arbedion fel y gwnaed yn ofynnol yn yr adolygiad o'r gyllideb.<br>AGGCC - Hydref 2014: Gellir gweld yr adroddiad Gwerthuso Perfformiad Blynyddol yma.<br><br>Cynhaliodd AGGCC arolygiad cenedlaethol o drefniadau diogelu a chynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal sy'n ymddwyn mewn ffordd sy'n eu gwneud yn agored i niwed neu a allai beri risg<br>Gellir gweld adroddiad AGGCC ar ddiogelu a chynllunio gofal yma.<br><br>Roedd y Cyngor yn ystyried sut i ddefnyddio data ariannol a data perfformiad o'n gwaith Cynaliadwyedd Gwasanaethau Cymdeithasol ar draws y pum cyngor yn ardal Gwent er mwyn cynllunio'r ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol yn y dyfodol.<br>Swyddfa Archwilio Cymru - Chwefror 2015<br><br>Roedd y Cyngor yn llwyddo ar y cyfan i fodloni ei rwymedigaethau statudol o ran iechyd yr amgylchedd ond oherwydd toriadau i'r gyllideb a nifer y staff, roedd gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn wynebu trobwynt ac roedd perygl na fyddent yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau cyfredol yn effeithiol nac ymgymryd â dyletswyddau statudol newydd.<br>Swyddfa Archwilio Cymru - Rhagfyr 2014.<br>Gellir gweld adroddiad Iechyd yr Amgylchedd yma.<br><br>Roedd y Cyngor wedi gwella trefniadau ansawdd data, ond nid oedd y trefniadau hyn yn cael eu rhoi ar waith yn gyson.<br>Adolygiad o Ansawdd Data, Swyddfa Archwilio Cymru - Chwefror 2015 |
|---|---|

Roedd y Cyngor wedi ymrwymo'r rhan fwyaf o'i Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn ond oherwydd rhai gwendidau o ran ansawdd ac amrywiaeth y wybodaeth a oedd ar gael i'r cyhoedd a'i systemau ar gyfer rheoli ei gyllid, nid oedd bob amser yn glir p'un a oedd y rheini â'r anghenion mwyaf yn cael help.

Swyddfa Archwilio Cymru - Mai 2015

Nid yw dull gweithredu'r Cyngor o hyrwyddo'r Gymraeg wedi'i ddatblygu'n ddigonol o hyd, roedd y Cyngor yn cydnabod hyn ac yn cymryd camau i wella trefniadau mewn rhai meysydd, ond roedd angen gwneud rhagor o waith.

Comisiynydd y Gymraeg - Medi 2014. Gellir gweld adroddiad blynyddol Comisiynydd y Gymraeg yma.

## Argymhellion

11 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor a'r heriau y mae'n eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- a wneud cynigion ar gyfer gwella - os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;
- b gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- c cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- ch argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

12 Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol pellach. Fodd bynnag, nodir materion â llai o flaenoriaeth, sef cynigion ar gyfer gwella, yn ein hadroddiadau eraill ac mae'n bosibl y cyfeirir atynt yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Byddwn yn parhau i fonitro cynigion ar gyfer gwella yn ystod ein gwaith asesu gwelliant.

13 Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn gwneud argymhellion a all fod yn berthnasol i Gynghorau yn ei Adroddiadau Cenedlaethol ar Lywodraeth Leol. Ceir rhestr o'r argymhellion perthnasol a gynhwysir mewn adroddiadau a gyhoeddwyd yn 2014-15 yn Atodiad 5.

14 Isod, nodir Cynigion ar gyfer Gwella yn deillio o'n Hadolygiad o Drefniadau Herio a Llywodraethu Mewnol y Cyngor - Cam Dau.

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| Cynnig 1 | Sicrhau bod Aelodau yn cael gwybodaeth briodol a chywir mewn adroddiadau er mwyn gwella'r broses gwneud penderfyniadau. |
| Cynnig 2 | Sicrhau bod y swyddogaeth Graffu yn chwarae rhan effeithiol wrth herio'r gallu i gyflawni prosiectau ac effaith bosibl newidiadau ar ddefnyddwyr. |
| Cynnig 3 | Sicrhau bod rheolwyr yn cymryd perchenogaeth gyson dros gynigion ar gyfer arbedion ac atgyfnerthu atebolrwydd rheolwyr dros eu cyflawni. |
| Cynnig 4 | Gwella sgiliau ac atgyfnerthu capasiti craidd, er enghraifft ar y Tîm Trawsnewid Strategol, er mwyn helpu i gyflawni ymdrechion trawsnewid parhaus. |
| Cynnig 5 | Sicrhau bod systemau TG ar gyfer monitro perfformiad a chyllidebau yn effeithiol wrth helpu i gyflawni Rhaglen Trawsnewid Blaenau Gwent drwy ddarparu gwybodaeth gywir ac amserol. |

15 Nodir unrhyw argymhellion penodol a meysydd i'w gwella a nodwyd gan AGGCC, Estyn a Chomisiynydd y Gymraeg yn ystod y flwyddyn isod.

| AGGCC - Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2013-14 | |
|---|---|
| Dylai'r Cyngor wneud y canlynol: | |
| Maes 1 | Datblygu systemau ffurfiol er mwyn dynodi anghenion sy'n cael eu rhagamcanu o ran gwasanaethau anabledd dysgu er mwyn hysbysu comisiynu;<br>• datblygu systemau ar gyfer monitro effeithiolrwydd adnoddau ychwanegol er mwyn cefnogi rhyddhau o ysbytai; a<br>• dyfeisio cynllun ffurfiol er mwyn mesur cynnydd o ran yr wyth blaenoriaeth a nodir yn y strategaeth gaffael. |
| Maes 2 | Rhoi cyhoeddusrwydd i becynnau gwybodaeth i ofalwyr ymhlith y staff er mwyn sicrhau y cânt eu darparu'n hwylus:<br>• atgyfnerthu cynllunio gofal yn y gwasanaethau oedolion i sicrhau dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau; a<br>• sicrhau bod mecanweithiau'n cael eu sefydlu er mwyn monitro ansawdd canlyniadau a thystiolaethu am ganlyniadau yng ngwasanaethau plant. |
| Maes 3 | Monitro llwythi achos i sicrhau bod niferoedd staff a sgiliau yn adlewyrchu anghenion pobl. |
| Maes 4 | Cyfrannu at weithredu camau y cyfeiriwyd atynt yn yr adolygiad diweddar o Fwrdd Diogelu Oedolion Gwent Gyfan (GWASB). |
| Maes 5 | Datblygu fframwaith trosfwaol ar gyfer adolygu sy'n cyfrannu tuag at ddatblygu a chynllunio darpariaeth y gwasanaeth yn barhaus. |

# Adroddiad manwl



# Y defnydd o adnoddau

16 Nodir gwybodaeth am incwm, gwariant a lefelau staffio’r Cyngor yn Atodiad 6 er mwyn darparu cyd-destun.

## Archwiliad o gyfrifon y Cyngor

## Cyhoeddodd yr Archwilydd Penodedig farn ddiamod ar ddatganiadau cyfrifyddu’r Cyngor ar 8 Hydref 2014 gan ddatgan eu bod yn cyflwyno darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014

17 Ar 30 Tachwedd 2014, cyflwynodd yr Archwilydd Penodedig Lythyr Archwilio Blynyddol i’r Cyngor. Roedd y llythyr yn crynhoi’r negeseuon allweddol a oedd yn deillio o’i gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a’i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Cyhoeddodd yr Archwilydd Penodedig farn ddiamod ar ddatganiadau cyfrifyddu’r Cyngor ar 8 Hydref 2014 gan ddatgan eu bod yn cyflwyno darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014. Mae’r Llythyr Archwilio Blynyddol ar gael yn Atodiad 4 o’r adroddiad hwn.

18 Ym mis Hydref 2013, gwnaeth yr Archwilydd Penodedig Argymhelliad Statudol i’r Cyngor o dan adran 25(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn argymell y canlynol:

- a y dylai’r Cyngor weithredu ar unwaith i nodi a chymeradwyo camau gweithredu i sicrhau cyllideb gyfreithlon a mantoledig ar gyfer 2014-15; a
- b chytuno ar Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a fyddai’n caniatáu i’r Cyngor weithredu o fewn ei adnoddau.

19 Mewn ymateb i argymhelliad gan yr Archwilydd Cyffredinol, rhoddodd Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth Llywodraeth Cymru becyn cymorth i’r Cyngor. Cynlluniwyd y pecyn, a oedd yn cynnwys penodi tîm o Gynghorwyr allanol, i alluogi’r Cyngor i ymdrin â’i anawsterau ariannol byrdymor brys ar gyfer 2013-14, i bennu cyllideb fantoledig ar gyfer 2014-15 ac i ddatblygu Cynllun Newid Trawsnewidiol yn nodi ei flaenoriaethau ar gyfer cyflawni yn y tymor canolig.

## Gwnaeth y Cyngor gynnydd calonogol o ran gwella trefniadau rheoli ariannol yn dilyn argymhellion statudol a wnaed gan yr Archwilydd Penodedig ac Archwilydd Cyffredinol Cymru yn 2013 ond roedd angen iddo sicrhau bod y trefniadau hynny yn cael eu rhoi ar waith yn llawn er mwyn cyflawni'r canlyniadau bwriadedig

20 Daethom i'r casgliad hwn drwy ein hadolygiad o gydnerthedd ariannol y Cyngor a ganolbwyntiodd ar ateb y cwestiwn canlynol: 'A yw'r awdurdod yn rheoli gostyngiadau cyllidebol yn effeithiol er mwyn sicrhau cydnerthedd ariannol?' Daethom i'r casgliad:

a fod cofnodion y Cyngor yn nodi nad oedd yn gallu gweithredu o fewn ei gyllideb gyda rhai gwasanaethau allweddol yn gorwario a chyllidebau yn cael eu mantoli drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn; ac

b roedd y Cyngor wedi cyflwyno cynlluniau a threfniadau i sicrhau arbedion sylweddol yn 2014-15 a thu hwnt, ac roedd angen iddo adolygu a gwerthuso effeithiolrwydd y trefniadau hyn yn barhaus er mwyn iddo gyflawni ei flaenoriaethau strategol a bod yn gynaliadwy yn ariannol.

### Nododd cofnodion y Cyngor cyn 2013-14 nad oedd yn gallu gweithredu o fewn ei gyllideb gyda rhai gwasanaethau allweddol yn gorwario a chyllidebau yn cael eu mantoli drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn

21 Cafwyd gennym, wrth bennu'r cyllidebau ar gyfer 2011-12 a 2012-13, nad oedd unrhyw ofyniad ar y Cyngor i ddefnyddio Cronfeydd Cyffredinol Wrth Gefn y Cyngor ond fod y ddwy gyllideb yn bwriadu cynnwys cyfraniadau o gronfeydd wrth gefn y Cyfrif Refeniw Tai er mwyn talu costau gweddilliol trosglwyddo stoc. Roedd gan rai portffolios hanes o orwariant cyllidebol ac o fethu â chyflawni'r arbedion a gynlluniwyd.

### Roedd y Cyngor wedi cyflwyno cynlluniau a threfniadau i sicrhau arbedion sylweddol yn 2014-15 a thu hwnt, ac roedd angen iddo barhau i adolygu a gwerthuso effeithiolrwydd y trefniadau hyn er mwyn iddo gyflawni ei flaenoriaethau strategol a bod yn gynaliadwy yn ariannol

22 Cafwyd gennym fod y Cyngor wedi gweithio'n galed i ddatblygu dull cynllunio ariannol newydd a oedd yn canolbwyntio ar gyfnod o dair blynedd yn dechrau o 2014-15, ac i roi'r dull hwnnw ar waith.

23 Cadarnhaodd llythyr gan Gynghorwyr y Llywodraeth a anfonwyd at y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Hydref eu bod yn fodlon â chynnydd y Cyngor. Fodd bynnag, nododd llythyr y Cynghorwyr fod y Cyngor yn parhau i ddatblygu ei fodel ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar ei berfformiad a'i sefyllfa ariannol a bod gwaith yn mynd rhagddo o hyd ar y model hwn.

24 Cyflwynodd y Cyngor drefniadau a mesurau newydd i ymdrin â gwendidau a nodwyd yn flaenorol fel a ganlyn, ond megis dechrau roedd y broses o'u rhoi ar waith:

a roedd Rhaglen Trawsnewid Blaenau Gwent yn bwriadu sicrhau bod pob prosiect a ffrwd waith sylweddol yn cael eu cydgysylltu a'u monitro o fewn un cynllun a bod y Cyngor yn cadw rheolaeth gadarn dros y cynnydd a wnaed wrth gyflawni blaenoriaethau ariannol a strategol allweddol;

b roedd y Cyngor wedi sefydlu Grŵp Llywio misol ar gyfer y Rhaglen er mwyn llunio adroddiadau cynnydd misol i uwch reolwyr a swyddogion; ac

c roedd y Cyngor wedi sefydlu Tîm Trawsnewid Strategol i goladu ac adolygu pob prosiect ym mhob rhan o'r Cyngor, gyda rheolwyr prosiect a swyddogion perthnasol eraill.

## Parhaodd y Cyngor i ddangos bod ganddo systemau a phrosesau cynaliadwy ar waith i reoli ei gyllideb yn effeithiol ac i gynllunio ei gyllid yn y tymor hwy

25 Ym mis Hydref 2013, gwnaeth yr Archwilydd Penodedig Argymhelliad Statudol i'r Cyngor o dan adran 25(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn argymell y canlynol:

a y dylai'r Cyngor weithredu ar unwaith i nodi a chymeradwyo camau gweithredu i sicrhau cyllideb gyfreithlon a mantoledig ar gyfer 2014-15; a

b chytuno ar Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a fyddai'n caniatáu i'r Cyngor weithredu o fewn ei adnoddau.

26 Mewn ymateb i'r argymhelliad, rhoddodd Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth Llywodraeth Cymru becyn cymorth i'r Cyngor. Cynlluniwyd y pecyn, a oedd yn cynnwys penodi tîm o Gynghorwyr allanol, i alluogi'r Cyngor i ymdrin â'i anawsterau ariannol byrdymor brys ar gyfer 2013-14, i bennu cyllideb fantoledig ar gyfer 2014-15 ac i ddatblygu Cynllun Newid Trawsnewidiol unigol yn nodi ei flaenoriaethau ar gyfer cyflawni yn y tymor canolig.

27 Ymwelodd Cynghorwyr Llywodraeth Cymru â'r Cyngor ar 24 a 26 Mehefin 2014 i adolygu cynnydd y Cyngor a chyflwynwyd eu canfyddiadau mewn llythyr i'r Cyngor dyddiedig 26 Mehefin 2014. Cadarnhaodd y llythyr bod y Cyngor yn parhau i ddangos bod ganddo systemau a phrosesau cynaliadwy ar waith i reoli ei gyllideb yn effeithiol ac i gynllunio ei gyllid yn y tymor hwy.

# Llywodraethu

## Roedd llawer o drefniadau i roi Rhaglen Trawsnewid Blaenau Gwent ar waith a chyda momentwm parhaus i roi trefniadau pellach ar waith, roedd potensial y gallai'r trefniadau hyn sicrhau gwelliant parhaus

28 Ystyriodd yr adolygiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru y trefniadau llywodraethu a herio mewnol roedd y Cyngor wedi'u rhoi ar waith yn dilyn y ddau argymhelliad statudol a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol yn 2013. Cam Un o adolygiad dau gam oedd yr adolygiad hwn, a nodwyd y canlynol gennym.

29 Nododd Rhaglen Trawsnewid Blaenau Gwent (y Rhaglen) yr angen i gyflawni arbedion sylweddol gyda llai o adnoddau. Nododd y Rhaglen y trefniadau adrodd a rheoli ar gyfer y prosiectau a nodwyd i gyflawni arbedion drwy un adroddiad perfformiad a chyllid ar y cyd a thrwy gyflwyno trefniadau llywodraethu newydd.

30 Cynyddodd y Cyngor gapasiti corfforaethol drwy ychwanegu at ei dimau Datblygu Sefydliadol a Pholisi a Pherfformiad a thrwy greu Tîm Trawsnewid Strategol newydd i helpu, tywys a herio swyddogion, rheolwyr ac aelodau wrth iddynt roi'r Rhaglen ar waith. Nod y newidiadau hyn oedd gwella achosion busnes ac arwain at broses fwy cadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau.

31 Roedd Grŵp Llywio'r Rhaglen[2] (y Grŵp Llywio) a'r adroddiad perfformiad a chyllid ar y cyd[3] yn rhannau allweddol o'r trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd. Nododd y Grŵp Llywio gamau adfer i reolwyr prosiect eu cymryd er mwyn sicrhau y parheir i gyflawni prosiectau effeithlonrwydd ariannol mewn modd amserol. Fodd bynnag, nodwyd gennym y gallai methu ag ymdrin ag unrhyw gamau adferol yn deillio o gyfarfodydd y Grŵp Llywio mewn modd amserol arwain at oedi wrth gyflawni canlyniad y Rhaglen.

32 Gwnaeth y Cyngor gynnydd da wrth sefydlu strwythur adrodd ac atebolrwydd drwy greu cynlluniau busnes ar gyfer timau a chynlluniau busnes i benaethiaid gwasanaeth. Fodd bynnag, nid oedd cynlluniau busnes wedi'u llunio eto i gyfarwyddiaethau, gan arwain at fwlch yn y broses.

33 Yn ogystal â'i bwyllgorau gwneud penderfyniadau ffurfiol, Sefydlodd y Cyngor grwpiau ychwanegol i helpu i roi'r Rhaglen ar waith. Er enghraifft, roedd yn cynnal cyfarfodydd Tîm Rheoli Corfforaethol 'Oddi ar yr Agenda', Is Grŵp Pwysau Cost, Grŵp Llywio'r Rhaglen, Grŵp Ffocws Cynllunio Ariannol a Chlymblaid ar gyfer Newid. Gwnaethom dynnu sylw at broblemau o ran tryloywder proses gwneud penderfyniadau a chyfansoddiad ffurfiol rhai o'r grwpiau hyn, yr addawodd y Cyngor y byddai'n ymdrin â hwy.

2 Mae'r Grŵp Llywio yn gyfrifol am sicrhau y caiff prosiectau effeithlonrwydd ariannol unigol eu hintegreiddio'n llawn o fewn y Rhaglen gyffredinol. Mae'n ofynnol i'r aelodau ymgymryd â chamau gweithredu allweddol yn y Rhaglen a'u hadolygu, rhoi adborth i gyfarwyddwr y rhaglen, derbyn gwybodaeth am risgiau a phroblemau, rhoi cyngor arnynt a'u huwchgyfeirio i gyfarwyddwr y rhaglen, a darparu arweinyddiaeth ac ymrwymiad gweledol i'r Rhaglen o fewn eu hadrannau. Mae aelodau'r grŵp hwn yn benaethiaid gwasanaeth neu'n swyddogion enwebedig.

3 Mae'r ddogfen hon yn cyfuno systemau monitro perfformiad a systemau monitro ariannol sy'n bodoli eisoes. Caiff yr adroddiad hwn ei lunio bob mis ac mae'n cynnwys gwybodaeth fonitro mewn perthynas â chyllidebau adrannau, crynodeb o gynnydd y prosiectau effeithlonrwydd ariannol strategol, dangosyddion perfformiad gan bob cyfarwyddiaeth, cynigion Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer gwella a'r wybodaeth ddiweddaraf am amcanion gwella a'r gofrestr risg gorfforaethol.

34 Cyflwynodd y Cyngor raddfa glas, coch, ambr a gwyrdd (gan ddefnyddio'r talfyriad BRAG yn Saesneg) er mwyn pennu cynnydd prosiectau a'u statws cyfredol i helpu gyda'r broses gwneud penderfyniadau. Dewiswyd y prosiectau hynny y barnwyd eu bod yn goch neu'n ambr a chynhaliwyd gwaith craffu a herio pellach arnynt. Ni chafodd y prosiectau hynny y rhoddwyd gradd las neu wyrdd iddynt gymaint o sylw. Fodd bynnag, roedd anghysondeb o ran dealltwriaeth o raddau BRAG a'r defnydd ohonynt ymhlith swyddogion ac aelodau. Mewn rhai prosiectau, roedd swyddogion yn dyrannu graddau i gamau gweithredu o fewn prosiectau ond roedd eraill yn rhoi gradd i ganlyniad y prosiect.

35 Roedd prosesau craffu yn gwella. Roedd cadeiryddion ac is-gadeiryddion pwyllgorau craffu yn deall eu rôl wrth herio swyddogion ac aelodau'r cabinet ac roeddent hefyd yn gallu mynegi llwybr adrodd y rhaglen.

36 Roedd y Cyngor wedi cymryd camau gweithredu cadarnhaol o ran datblygu aelodau. Roedd y Ganolfan Craffu Cyhoeddus yn cynnig cymorth i aelodau. Roedd y broses Herio Cymheiriaid wedi bod yn brofiad cadarnhaol i aelodau Gweithredol ac wedi eu helpu i feithrin dealltwriaeth well o'r gwasanaethau yr oeddent yn gyfrifol amdanynt.

37 Atgyfnerthwyd lefelau atebolrwydd. Roedd swyddogion arweiniol wedi'u nodi'n glir mewn cynlluniau busnes, a nodwyd swyddogion ac aelodau Gweithredol mewn dogfennau dechrau prosiectau, prosiectau arbedion ariannol a'r rhestr prosiectau corfforaethol. Roedd y Cyngor wedi cyflwyno system arfarnu flynyddol ffurfiol ar gyfer swyddogion a rheolwyr ynghyd â chyfarfodydd unigol mwy rheolaidd fel rhan o ddull hyfforddi perfformiad newydd y Cyngor.

## Mae trefniadau herio a llywodraethu mewnol y Cyngor yn cael eu rhoi ar waith i'w helpu i gyflawni canlyniadau bwriadedig Rhaglen Trawsnewid Blaenau Gwent, ond mae angen gwneud rhagor o waith

38 Ym mis Chwefror 2015, cynhaliwyd ail gam yr adolygiad gennym er mwyn asesu i ba raddau roedd y trefniadau wedi'u rhoi ar waith ac yn helpu i gyflawni'r canlyniadau bwriadedig. Ein nod oedd adlewyrchu taith y Cyngor tuag at roi'r Rhaglen ar waith a gwnaethom roi ystyriaeth i'r ffaith mai 2014-15 oedd y flwyddyn weithredu gyntaf. Ceisiodd yr adolygiad hwn ateb y cwestiwn canlynol: 'A yw trefniadau herio a llywodraethu mewnol y Cyngor yn llwyddo i gyflawni canlyniadau bwriadedig Rhaglen Trawsnewid Blaenau Gwent yn effeithiol?'

39 Daethom i'r casgliad fod trefniadau herio a llywodraethu mewnol y Cyngor yn cael eu rhoi ar waith i'w helpu i gyflawni canlyniadau bwriadedig y Rhaglen, ond mae angen gwneud rhagor o waith. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

a mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol, o sefyllfa arbennig o wan, i roi trefniadau llywodraethu ar waith ac i gefnogi penderfyniadau a wnaed er mwyn sicrhau gwell canlyniadau, ond mae angen gwneud rhagor o waith;

b llwyddodd y Cyngor i gyflawni'r arbedion a nodwyd yn y Rhaglen ond nid oedd rhai o'r arbedion fel y cynlluniwyd yn wreiddiol; ac

c mae'r Cyngor wedi gwella effeithiolrwydd ei drefniadau ar gyfer monitro a rheoli gwelliannau ond nid yw hyn yn gyson nac wedi'i roi ar waith ym mhob maes gwasanaeth.

## Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol, o sefyllfa arbennig o wan, i roi trefniadau llywodraethu ar waith ac i gefnogi penderfyniadau a wnaed er mwyn sicrhau gwell canlyniadau, ond mae angen gwneud rhagor o waith

40 Mae trefniadau pennu cyllidebau wedi gwella er mwyn gallu ystyried cynigion yn well. Wrth baratoi cyllideb refeniw 2014-15, roedd yr amserlenni yn gaeth ac nid oedd cyfle i werthuso'r cynigion yn briodol. Wrth baratoi ar gyfer cyllideb refeniw 2014-15, dechreuodd y broses yn gynharach yn ystod y flwyddyn a rhoddodd gwell cyfleoedd i herio'r cynigion fwy ac i roi ystyriaeth ehangach iddynt. Mae'r Cyngor hefyd wedi mabwysiadu dull adeiladol ar gyfer pennu arbedion ar draws cyfarwyddiaethau sy'n ystyried, er enghraifft, p'un a yw gwasanaethau yn statudol neu'n anstatudol ac a yw pob cynnig wedi'i ategu gan achos busnes. O ganlyniad, mae'n fwy tebygol y caiff arbedion cyllidebol eu cyflawni fel y bwriadwyd.

41 Adolygodd y Cyngor effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu, ac o ganlyniad, diddymwyd y grŵp Clymblaid ar gyfer Newid a gwnaed newidiadau i gylch gorchwyl Grŵp Llywio'r Rhaglen. Yn y dyfodol, caiff yr adroddiadau cyllid a pherfformiad ar y cyd a luniwyd bob mis eu llunio bob chwarter.

42 Mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â thrigolion lleol yn fwy effeithiol. Mae'r fenter 'Gadewch i Ni Siarad' wedi cynnig cyfle adeiladol i ymgysylltu â phobl leol a ddylanwadodd ar gyllideb 2015-16. Wrth baratoi ar gyfer cyllideb refeniw 2015-16, mae'r Cyngor wedi cynnal sesiynau i egluro'r opsiynau cyllidebol, clywed safbwyntiau pobl leol ac wedi hynny, i egluro sut y dylanwadodd eu safbwyntiau ar y broses o bennu'r gyllideb. Dengys hyn ymrwymiad i ymgysylltu'n lleol sydd y tu hwnt i ddim ond gwrando.

43 Daeth yr Ymddiriedolaeth Hamdden yn weithredol ym mis Hydref 2014. Sefydlodd y Cyngor ddogfennaeth ffurfiol i gefnogi'r Ymddiriedolaeth Hamdden megis contract a Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) ond megis dechrau y mae'r broses o ddatblygu'r gydberthynas newydd hon. Nid oedd rheolwyr yr Ymddiriedolaeth Hamdden yn disgwyl y newidiadau arfaethedig i'r ffi rheoli mor fuan ar ôl sefydlu'r Ymddiriedolaeth ac ni chytunwyd ar brotocolau gweithredol megis argaeledd systemau TG eto. O ganlyniad, er bod yr Ymddiriedolaeth wedi'i sefydlu, mae'n amlwg nad yw'r gydberthynas newydd wedi ymsefydlu'n gadarn eto.

44 Nid yw trefniadau llywodraethu wedi'u datblygu'n ddigonol mewn rhai meysydd o hyd. Er bod Aelodau o'r farn bod ansawdd adroddiadau wedi gwella, mae rhagor o waith i'w wneud i sicrhau bod Aelodau yn deall y materion yn glir wrth wneud penderfyniadau. Gwneir rhai penderfyniadau heb fod manylion terfynol pwysig wedi'u nodi mewn adroddiadau. Er enghraifft, yr adroddiad ar yr Ymddiriedolaeth Hamdden lle na chynhwyswyd manylion y ffi rheoli ac unrhyw wargedion yn yr adroddiadau gan y Cyngor a roddwyd i aelodau. Mae'r darnau hyn o wybodaeth yn bwysig a gallent fod wedi dylanwadu ar y penderfyniad i fwrw ati i sefydlu Ymddiriedolaeth Hamdden. Ni chaiff effaith bosibl penderfyniadau ar wasanaethau bob amser eu hegluro'n ddigonol mewn adroddiadau ac ni lwyddir bob amser i ragweld yr ymateb gan ddefnyddwyr gwasanaethau.

45 Nid yw Blaengynlluniau Craffu bob amser yn adlewyrchu'r Rhaglen na phrosiectau effeithlonrwydd ariannol penodol yn gyson. Bydd y ffactorau hyn yn effeithio ar ansawdd y penderfyniadau a wneir yn y Cyngor.

46 Mae angen i newidiadau diwylliannol mewn rhai meysydd gael eu gweithredu ar yr un cyflymder â newidiadau a'r angen am y newidiadau hynny. Cafwyd gennym nad oedd rhai rheolwyr wedi'u darbwyllo y gellid cyflawni'r arbedion arfaethedig er eu bod wedi cymeradwyo'r cynigion, a dengys y cynigion cyfredol ar gyfer arbedion bod llawer ohonynt yn canolbwyntio ar ostyngiadau traddodiadol i'r gyllideb neu gynnydd mewn incwm o hyd yn hytrach na thrawsnewid gwirioneddol. Dengys hyn mai megis dechrau y mae'r broses drawsnewid o hyd.

## Llwyddodd y Cyngor i gyflawni'r arbedion a nodwyd yn y Rhaglen ond nid oedd rhai o'r arbedion fel y cynlluniwyd yn wreiddiol

47 Mae adroddiadau monitro'r Cyngor yn rhagweld tanwariant yn y gyllideb refeniw, gan ddynodi ei fod wedi cyflawni ei darged arbedion cyffredinol. Bu'n rhagweithiol wrth nodi cynigion ar gyfer arbedion amgen lle cafwyd na fyddai wedi bod yn bosibl cyflawni'r cynigion gwreiddiol a chafodd gymorth allanol a fu o fudd drwy gynyddu capasiti a sgiliau i roi'r Rhaglen ar waith.

48 Nid oedd trefniadau pennu cyllideb y Cyngor yn 2014-15 yn gadarn mewn perthynas â'r Rhaglen. Ni fyddai wedi bod yn bosibl cyflawni rhai o'r cynigion ar gyfer arbedion ac felly bu'n rhaid pennu cynigion amgen. Nid oedd achosion busnes wedi'u datblygu'n ddigonol mewn rhai achosion ac ni chafodd y gallu i

gyflawni'r cynigion hyn ei gynllunio'n dda na'i weithredu'n dda. O ganlyniad, bu'n rhaid gwneud arbedion annisgwyl pellach a thoriadau i wasanaethau er mwyn cyflawni'r targed arbedion cyffredinol.

49 Yn dilyn hynny, mae'r Cyngor wedi datblygu dull gweithredu proffesiynol a disgybledig ar gyfer monitro ei brosiectau effeithlonrwydd ariannol ac ymateb fel y bo'n ofynnol.

## Mae'r Cyngor wedi gwella effeithiolrwydd ei drefniadau ar gyfer monitro a rheoli gwelliannau ond nid yw hyn yn gyson nac wedi'i roi ar waith ym mhob maes gwasanaeth

50 Mae'r Cyngor wedi cyflwyno trefniadau i wella atebolrwydd a cheir agwedd gynyddol gadarnhaol tuag at y Rhaglen gan swyddogion ac aelodau, er bod angen gwneud rhagor o waith. Mae Adolygiadau Datblygiad Personol Aelodau yn mynd rhagddynt ac mae'r Cyngor wedi cyflwyno sesiynau herio ar gyfer aelodau'r cabinet, aelodau craffu ac uwch reolwyr er mwyn dwyn rheolwyr i gyfrif. Mae'r sesiynau herio hyn yn gwella dealltwriaeth o'r sefyllfa ddiweddaraf ac atebolrwydd ym mhob rhan o'r sefydliad. Fodd bynnag, ni chafodd rheolwyr eu dwyn i gyfrif yn effeithiol am fethu â chyflawni'r cynigion gwreiddiol ar gyfer arbedion ac os nodwyd arbedion amgen, ni fu unrhyw broses ffurfiol i sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd o broses Rhaglen 2014-15 yn rhan o broses 2015-16.

51 Cynyddwyd capasiti i gefnogi'r Rhaglen ond nid ydym yn glir p'un a fydd hyn yn ddigon i gyflawni mesurau caledi yn y dyfodol. Mae'r Tîm Trawsnewid Strategol yn monitro'r broses o roi'r Rhaglen ar waith ac yn cefnogi ac yn herio rheolwyr. Fodd bynnag, mae'r tîm yn dîm newydd sy'n datblygu o hyd o ran sgiliau a gwybodaeth am swyddi ac nis gwerthuswyd gan y Cyngor er mwyn asesu p'un a yw'r gallu a'r adnoddau ganddo i fodloni gofynion yn y dyfodol. Ychwanegodd y cymorth allanol a gafwyd gan PwC rywfaint o sgiliau a gallu a throsglwyddwyd rhywfaint o sgiliau.

52 Mae trefniadau monitro'r Cyngor wedi'u sefydlu ond nid ydynt yn gwbl weithredol. Mae system graddau BRAG yn nodi cynnydd yn erbyn targedau er mwyn helpu uwch reolwyr ac aelodau i ganolbwyntio ar amrywiadau o'r Rhaglen. Fodd bynnag, gall y system graddau fod yn ddryslyd gan fod y radd wedi'i chysylltu â'r broses gyffredinol o gyflawni'r targed arbedion gwreiddiol - ni waeth p'un a gafodd hyn ei ddisodli gan un neu fwy o gynlluniau arbedion amgen. Hefyd, ni chaiff cyllidebau eu proffilio'n effeithiol gan nodi cyfran y gyllideb yn erbyn gwariant hyd yn hyn. O ganlyniad, bydd adroddiadau yn nodi cynnydd camarweiniol yn erbyn prosiectau.

53 Mae'r Cyngor yn cyflwyno polisïau, gweithdrefnau a systemau er mwyn helpu i roi'r Rhaglen ar waith ond nid yw'r gwaith hwn wedi'i gwblhau eto. Mae'r Fframwaith Rheoli Perfformiad a Chynllunio Gwelliant a gymeradwywyd yn ddiweddar yn nodi rolau a chyfrifoldebau ar gyfer rhoi'r Rhaglen ar waith ac yn darparu trosolwg o drefniadau rheoli perfformiad. Mae'r system rheoli perfformiad i ddisodli Ffynnon yn cael ei datblygu ond mae'r amserlenni yn dynn. Mae cyfleoedd ar gael i ystyried datblygu system rheoli perfformiad corfforaethol a allai hefyd gefnogi'r Rhaglen â gwybodaeth fonitro.

54 Nid yw trefniadau'r Cyngor ar gyfer proffilio'r gyllideb yn llwyddo i ategu'r broses o fonitro'r Rhaglen yn effeithiol drwy asesu gwariant/incwm gwirioneddol yn erbyn y gyllideb a broffiliwyd.

## Parhaodd y Cyngor i wneud cynnydd derbyniol wrth ymateb i'r heriau a wynebir ganddo

55 Dychwelodd Cynghorwyr Llywodraeth Cymru i fonitro'r Cyngor ym mis Medi a mis Hydref 2014 gan nodi fod y Cyngor yn parhau i wneud cynnydd derbyniol wrth ymateb i'r heriau a wynebir ganddo. Roedd y cynghorwyr yn fodlon bod y Cyngor:

- a Yn arddangos sefyllfa ariannol iach o ran ei gronfeydd cyffredinol wrth gefn, ei gronfeydd wrth gefn wedi'u neilltuo a balansau ysgolion.
- b Wedi rhoi systemau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli'r gyllideb er mwyn rheoli'r pwysau ar y gyllideb a rheoli ei gyllideb ar gyfer 2014-15. Roedd y Cyngor yn rhagweld gorwariant o £180,000 ond roedd y cynghorwyr yn hyderus, yn seiliedig ar berfformiad y llynedd, y bydd gwariant yn unol â'r gyllideb.
- c Wedi monitro a rheoli ei raglen i gyflawni arbedion effeithlonrwydd ar gyfer 2014-15 yn effeithiol drwy Grŵp Llywio'r Rhaglen Drawsnewid.
- ch Wedi datblygu cydberthynas waith effeithiol gyda'i bartner allanol PwC er mwyn nodi a gweithredu rhaglen tymor hwy ar gyfer arbedion effeithlonrwydd ar gyfer 2015-16 a thu hwnt yn seiliedig ar fodel realistig a hyblyg ar gyfer darparu gwasanaethau amgen.
- d Mewn sefyllfa dda i gyrraedd targedau arbedion heriol Llywodraeth Cymru.
- dd Wedi adolygu ei broses a'i amserlen ar gyfer pennu'r gyllideb ar gyfer 2015-16 yn briodol gan gynnwys ymgynghoriadau a mewnbwn gwell gan ei gyflogeion, undebau llafur a'r gymuned leol.
- e Wedi parhau i ddatblygu ei fodel ar gyfer cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar gyllid a pherfformiad. Roedd y gwaith hwn yn mynd rhagddo o hyd. Roedd cyflwyno adroddiadau misol wedi profi'n her i'r Cyngor ac roedd yn bwriadu cyflwyno adroddiadau bob deufis, a oedd yn dderbyniol yn ein barn ni.

56 Nodwyd bod adroddiad Adolygiad Cymheiriaid 2013 ar gyfer y Cyngor yn cyfeirio at ddwy flaenoriaeth allweddol: gwella ei gynaliadwyedd ariannol a gwella canlyniadau addysgol. Roedd y Cyngor wedi llwyddo i gyflawni'r cyntaf ond nid oedd wedi dangos gwelliant sylweddol a chynaliadwy o ran canlyniadau i ddysgwyr eto. Roedd canlyniadau cyffredinol Cyfnod Allweddol 4 ar gyfer 2014 yn gymharol siomedig ac o ganlyniad, roedd angen i'r Cyngor a'i ysgolion wneud cryn dipyn yn ystod 2014-15 er mwyn cyflawni canlyniadau gwell yn 2015.

## Cyflwynodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad ar drefniadau'r Cyngor i helpu i ddiogelu plant ym mis Hydref 2014

57 Rhwng mis Mawrth a mis Mai 2014, cwblhaodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad o drefniadau sicrwydd ac atebolrwydd y Cyngor ar gyfer sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau diogelu ar waith ac yn cael eu dilyn. Ystyriodd yr astudiaeth yr hyn yr oedd y Cyngor ei hun wedi'i wneud i geisio sicrwydd bod ei drefniadau i helpu i ddiogelu plant yn effeithiol, drwy adolygu'r ffordd y mae'r Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau diogelu ar bob lefel: Cabinet, Uwch Dîm Rheoli, Pwyllgor Craffu a swyddogion unigol. Mae'r paragraffau canlynol yn disgrifio prif gasgliadau'r gwaith.

### Roedd trefniadau llywodraethu, atebolrwydd a rheoli'r Cyngor ar gyfer goruchwylio ei gyfrifoldebau diogelu plant yn ddigonol ar y cyfan, ond gellid gwneud rhai gwelliannau

58 Mae'r Cyngor yn aelod o Fwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru (SEWSCB) sy'n cwmpasu'r pum cyngor yng Ngwent ac a sefydlwyd ym mis Ebrill 2013. Mae'r SEWSCB yn bartneriaeth aml-asiantaeth sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Heddlu Gwent, y Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyfarwyddiaethau Addysg y pum cyngor, y Sector Gwirfoddol, Gwasanaethau Troseddwyr Ifanc, Ymddiriedolaeth Prawf Cymru gyfan, CAFCASS Cymru, Tai, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan. Diben SEWSCB yw sicrhau bod diogelu plant yn parhau ar frig yr agenda ledled y rhanbarth.

59 Nid oedd unrhyw gytundeb cyffredinol ymhlith uwch swyddogion nac aelodau o ran pwy oedd yn cyflawni rôl Swyddog Penodedig yr Awdurdod Lleol ar gyfer diogelu, yn rhannol am nad oedd y Cyngor wedi enwi un person fel y Swyddog Penodedig ar gyfer diogelu. Yn hytrach, roedd wedi enwi Arweinydd Strategol Penodedig ym mhob Cyfarwyddiaeth. O'n harolwg, roedd yn amlwg bod angen gwella dealltwriaeth staff ac aelodau o'r trefniadau hyn.

60 Roedd tîm rheoli corfforaethol y Cyngor yn chwarae rhan arweiniol wrth sicrhau bod diogelu yn rhan annatod o waith y Cyngor. Cyflwynodd y tîm rheoli corfforaethol drefniadau newydd ar gyfer rhaeadru'r polisi diogelu corfforaethol drwy adrannau, o dimau rheoli i benaethiaid gwasanaethau ac i dimau unigol. Byddai'r broses hon, ar ôl ei chwblhau, yn galluogi'r Cyngor i sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o bwysigrwydd diogelu a'i rôl wrth gyflawni cyfrifoldebau'r Cyngor.

61 Roedd polisïau, gweithdrefnau a chynlluniau'r Cyngor yn darparu rhywfaint o sicrwydd o ran diogelu. Roedd y Cyngor yn defnyddio Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan i reoli trefniadau diogelu, ac roedd ganddo Bolisi Amddiffyn Plant penodol ar gyfer y Cyngor cyfan hefyd. Yn ogystal, roedd polisïau amddiffyn plant penodol hefyd ar gyfer ysgolion, addysg a gwasanaethau hamdden. Er mwyn sicrhau bod pob gwasanaeth yn gweithredu'n gyson ac er mwyn bodloni ei hun fod ganddo drefniadau cynhwysfawr ar waith, roedd angen i'r Cyngor sicrhau bod y polisïau hyn yn gwbl gyson â'r polisi diogelu corfforaethol.

62 Roedd y Cyngor yn cymryd camau rheoli risg er mwyn ei helpu i gyflawni ei gyfrifoldebau diogelu plant. Roedd gan bob adran gofrestr risg a oedd yn bwydo i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ac roedd diogelu wedi'i nodi fel risg ar lefel gorfforaethol ac ar lefel gwasanaeth. Nododd y gofrestr risg gynlluniau'r Cyngor ar gyfer lliniaru, y risg weddilliol yn dilyn y gweithgaredd hwn, perchennog y risg a sut y câi camau gweithredu yn y dyfodol eu monitro a'u gwerthuso. Cynhwyswyd adroddiadau ar risg gorfforaethol ym Mlaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu. Roedd Aelod Gweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Craffu hefyd yn cael gwybodaeth am y trefniadau ar gyfer rheoli risgiau adrannol drwy sesiynau briffio gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth y Gwasanaethau Plant.

## Roedd gan drefniadau'r Cyngor ar gyfer monitro a gwerthuso ei gyfrifoldebau diogelu plant rai gwendidau yr oedd y Cyngor yn mynd i'r afael â hwy

63 Roedd gan y Cyngor broses hunanwerthuso a gynlluniwyd i'w helpu i gynllunio'n effeithiol, ond dim ond yn ddiweddar y cyflwynwyd y broses hon ac nid oedd felly wedi ymsefydlu'n llawn. Roedd rhywfaint o dystiolaeth bod gwybodaeth a pherfformiad yn cael eu monitro, eu gwerthuso a'u herio. Roedd y Cyngor wedi cytuno ar amserlen ar gyfer monitro ac adolygu gwybodaeth a pherfformiad mewn perthynas â diogelu plant. Roedd yn llunio adroddiadau chwarterol wedi'u cysylltu â chamau gweithredu yng Nghynllun Busnes y Cyngor, ond roedd angen datblygu systemau monitro ac adrodd er mwyn olrhain ymdrechion diogelu effeithiol. Nid oedd unrhyw gylch penodedig ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar faterion diogelu i'r cabinet na'r Pwyllgor Craffu.

64 Roedd gan y Cyngor rywfaint o sicrwydd bod ganddo systemau priodol ar gyfer recriwtio staff mewn modd diogel. Er enghraifft, mae pob cynnig cyflogaeth yn amodol ar dderbyn gwiriadau boddhaol ac roedd y Cyngor wrthi'n datblygu protocol hyfforddi ar gyfer aelodau newydd o staff.

65 Roedd gan y Cyngor hefyd rywfaint o sicrwydd bod aelodau, staff a gwirfoddolwyr wedi'u hyfforddi'n briodol ym maes diogelu. Roedd y polisi diogelu corfforaethol yn glir o ran disgwyliadau ar gyfer hyfforddi aelodau, staff a gwirfoddolwyr. Fodd bynnag, cafwyd gennym fod Adroddiad Chwarterol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol 2013-14 yn datgan fod angen i'r Cyngor ddatblygu a gweithredu rhaglen hyfforddi ym maes Amddiffyn Plant i bob aelod o staff ysgol, llywodraethwyr ac aelodau o staff addysg perthnasol y Cyngor ac asiantaethau cymorth. Roedd y cam gweithredu hwn yn mynd rhagddo, a disgwyliwyd iddo gael ei gwblhau ym mis Gorffennaf 2014. Dros y cyfnod o 18 mis diwethaf, yr arweinydd addysg a fu'n gyfrifol am ddarparu hyfforddiant ym maes amddiffyn plant, sef penodiad ar y cyd rhwng Cyngor Casnewydd a Chyngor Blaenau Gwent a ddaeth i ben yn ddiweddar.

66 Serch hynny, roedd y Cyngor uwchlaw cyfartaledd yr arolwg ar gyfer nifer y bobl a oedd wedi cael hyfforddiant diogelu yn ystod y chwe mis diwethaf. Prin oedd y bobl hefyd yn y Cyngor nad oeddent erioed wedi derbyn hyfforddiant diogelu.

## Roedd dull y Cyngor o nodi gwelliannau o ran ei drefniadau diogelu a gweithredu arnynt yn cynnwys rhai gwendidau yr oedd y Cyngor yn mynd i'r afael â hwy

67 Nid oedd llawer o drefniadau archwilio ar waith mewn perthynas â threfniadau diogelu'r Cyngor. Roedd y Gwasanaethau Plant yn adolygu rhannau penodol o'u prosesau gwasanaeth ond nid oedd hyn yn cynnwys trefniadau corfforaethol ac nid oedd unrhyw gylch cytûn ar gyfer rhoi gwybod am faterion yn deillio o'r archwiliadau hyn er mwyn rhoi'r cyfle i aelodau herio perfformiad a chraffu arno. Roedd y Cyngor yn bwriadu rhoi'r dull gweithredu a ddatblygwyd yn y Gwasanaethau Cymdeithasol ar waith o fewn meysydd gwasanaeth eraill. Fodd bynnag, nid oedd hyn ar waith adeg ein hasesiad.

68 Roedd gan y Cyngor sicrwydd ei fod wedi cydymffurfio â gofynion diogelu data. Roedd y Cyngor yn defnyddio amrywiol ddulliau i sicrhau bod trefniadau diogelu data ar waith mewn perthynas â phlant a phobl ifanc, er enghraifft, dosbarthwyd cofnodion ac adolygiadau amddiffyn plant i gleientiaid â llaw lle y bo'n bosibl. Canfu ein harolwg fod cyfran uwch o ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno eu bod o'r farn bod y Cyngor yn delio'n effeithiol â digwyddiadau penodol yn ymwneud â diogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc.

69 Nid oedd rhaglen waith bresennol na blaenraglen waith gwasanaeth archwilio mewnol y Cyngor yn cynnwys unrhyw waith ar ddiogelu.

## Roedd y Cyngor yn adolygu ei bolisi chwythu'r chwiban ond roedd angen atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer gweithredu a rheoli'r polisi

70 Roedd Polisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor yn gryno, strwythuredig a chefnogol ond roedd yn cael ei adolygu adeg ein gwaith ac roedd angen llunio fersiwn derfynol. Roedd y Polisi yn dangos ymrwymiad y Cyngor i chwythu'r chwiban, ond nid oedd y polisi na'r gweithdrefnau wedi bod yn destun herio na chraffu gan aelodau etholedig. Roedd hyfforddiant ar gael ar chwythu'r chwiban ond gellid ei wella drwy gynnwys hyfforddiant ar gynnal ymchwiliadau. Roedd Polisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor ar gael ar y fewnrwyd ac roedd y Cyngor wedi rhoi cyhoeddusrwydd iddo drwy ddulliau eraill ond nid oedd wedi cadarnhau bod staff yn ymwybodol ohono ac yn ei ddeall. Roedd angen mynd ati i sicrhau bod staff nad oedd ganddynt fynediad i gyfrifiadur yn ymwybodol o'r polisi.

# Perfformiad

## Gwnaeth yr awdurdod lleol ddechrau da wrth ymdrin ag argymhelliad Estyn ar gyfer gwella trefniadau diogelu yn dilyn ei harolygiad o'r awdurdod lleol yn 2013

71 Yn dilyn arolygiad Estyn o wasanaethau addysg i blant a phobl ifanc ym mis Ionawr 2013, cadwyd yr awdurdod yn y categori mesurau arbennig dilynol. Cynhaliodd Estyn ymweliad monitro ym mis Gorffennaf 2014 i adolygu argymhelliad 7, sef 'Sicrhau bod gweithdrefnau diogelu yn gadarn ac wedi'u hategu gan bolisi clir'. Yn dilyn yr ymweliad, daeth Estyn i'r casgliadau canlynol.

72 Roedd yr awdurdod lleol wedi llunio cynllun gweithredu priodol i ymdrin â'r materion diogelu a nodwyd yn yr arolygiad. Roedd diogelu bellach yn gyfrifoldeb corfforaethol ac wedi'i ategu gan bolisïau corfforaethol newydd, a oedd yn diffinio disgrifiadau swydd a chyfrifoldebau yn glir o ran arweinwyr diogelu ym mhob cyfarwyddiaeth. Roedd y cyfrifoldebau hyn yn cynnwys cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar ddiogelu i aelodau etholedig a rheolwyr corfforaethol. Roedd uwch reolwyr wedi dechrau gwella eu ffordd o sicrhau ansawdd wrth roi'r polisïau a'r gweithdrefnau hyn ar waith.

73 Gweithiodd yr awdurdod lleol yn dda gydag awdurdod lleol arall i sefydlu'r sylfeini ar gyfer y diwygiadau hyn. Arweiniodd hyn at welliannau o ran ansawdd dogfennau a gweithdrefnau diogelu ac amddiffyn plant corfforaethol yr awdurdod lleol, ac o ran y cyngor, y canllawiau a'r cymorth a roddir i ysgolion a gwasanaethau addysg eraill. Ymgynghorodd yr awdurdod lleol yn briodol â rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r polisïau hyn, a wellodd eu hyder o ran y cymorth a'r arweiniad a oedd ar gael gan swyddogion yr awdurdod lleol.

74 Roedd yr awdurdod lleol wedi cymryd camau pendant i sicrhau bod yr adran addysg yn bartner allweddol yn y tîm diogelu, a oedd yn rhan o drefniant rheoli llinell gwasanaethau cymdeithasol Blaenau Gwent. Roedd y tîm hwn wedi ei gwneud hi'n haws i staff mewn ysgolion a llywodraethwyr ysgolion gael hyfforddiant priodol. Arweiniodd hyn at gyrsiau wedi'u targedu'n well a chynnydd yn nifer yr oedd angen hyfforddiant arnynt a oedd yn cael yr hyfforddiant hwnnw.

75 Roedd hyfforddiant priodol a chymorth parhaus hefyd i'r arweinydd diogelu penodedig ym mhob ysgol. Roedd yr aelod arweiniol penodedig o staff a swyddog diogelu'r gwasanaethau addysg yn cyfarfod yn rheolaidd a bu'r cyfarfodydd hynny yn ddefnyddiol er mwyn rhoi cyfle i staff godi materion a oedd yn peri pryder. Er enghraifft, nododd ysgolion fod angen hyfforddiant arnynt ar gam-drin domestig a'i oblygiadau i ysgolion ac ymdriniwyd â hyn. Roedd penaethiaid ac aelodau eraill o staff bellach yn fwy hyderus wrth ymateb i faterion diogelu.

76 Roedd y tîm diogelu hefyd wedi dechrau gwella ansawdd a defnyddioldeb y data yr oedd yn eu casglu a'u dadansoddi gan ysgolion a gwasanaethau unigol. Mae bellach yn cyflwyno adroddiadau chwarterol cliriach i'r awdurdod. Mae'r tîm yn bwriadu gwella'r trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar ddiogelu ymhellach drwy gynnwys data am ddigwyddiadau bwlio ac ymyriadau corfforol cyfyngol. Roedd

dadansoddiad y tîm o atgyfeiriadau i'r gwasanaethau cymdeithasol wedi bod o ddefnydd i randdeiliaid ond ni ddadansoddwyd y data hyn yn ddigon da i nodi tueddiadau a themâu sylfaenol.

77 Roedd yr awdurdod lleol wedi diwygio ei ganllawiau recriwtio diogel. Roedd digon o hyfforddiant mewn arferion recriwtio diogel ar gael i benaethiaid a rheolwyr ac roeddent yn gliriach ynghylch eu cyfrifoldebau. Er enghraifft, roeddent yn deall na ellir talu cyflogeion newydd hyd nes y bydd penaethiaid a rheolwyr wedi cwblhau gwiriadau hunaniaeth llawn ac wedi craffu ar eu geirdaon. Fodd bynnag, nid oedd pawb yn deall canllawiau'r awdurdod lleol o ran recriwtio gwirfoddolwyr o hyd, ac o ganlyniad, nid oedd penaethiaid yn ymwybodol o'r amrywiaeth lawn o wiriadau sy'n ofynnol gan yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, roedd diwygiadau i'r canllawiau yn destun ymgynghoriad datblygedig gyda darparwyr gwasanaethau.

78 Roedd y swyddog diogelu arweiniol yn cyfarfod â'r aelod diogelu arweiniol yn rheolaidd er mwyn rhannu gwybodaeth diogelu. Roedd aelodau etholedig eraill yn cael gwybodaeth drwy adroddiadau i'r pwyllgor craffu ar y cyd. Fodd bynnag, roedd effaith arweinyddiaeth gan aelodau etholedig o ran gwella diogelu drwy'r awdurdod lleol yn aneglur o hyd.

## Araf fu cynnydd yr awdurdod lleol wrth ymdrin â phedwar o argymhellion Estyn

79 Ym mis Tachwedd 2014, cynhaliodd Estyn ymweliad monitro er mwyn adolygu'r pedwar argymhelliad canlynol allan o'r saith a wnaed yn dilyn arolygiad Estyn yn 2013:

- A2 Sicrhau mwy o drylwyredd a chysondeb mewn hunanarfarnu yn weithredol ac yn strategol.
- A3 Ffurfioli a chryfhau systemau cynllunio busnes a rheoli perfformiad er mwyn canolbwyntio'n fwy ar ddeilliannau a dwyn swyddogion i gyfrif.
- A4 Creu strwythur arwain sydd â'r mandad i alinio ymdrechion pob asiantaeth berthnasol er mwyn cydlynu a chyfeirio mentrau ar gyfer gwella ysgolion.
- A5 Defnyddio'r ystod lawn o bwerau sydd ar gael i'r awdurdod i wella ysgolion sy'n tanberfformio yn gyflymach.

80 Yn dilyn yr ymweliad monitro, daeth Estyn i'r casgliad mai araf fu cynnydd yr awdurdod lleol wrth ymdrin â phedwar argymhelliad Estyn. Daethpwyd i'r casgliad hwn am mai dim ond yn ddiweddar y dechreuwyd ymdrin ag argymhellion a wnaed ym mis Ionawr 2013. Roedd y gydberthynas rhwng y bwrdd adfer, swyddogion yr awdurdod lleol ac aelodau etholedig yn gwella. Fodd bynnag, nid oedd y gydberthynas hon yn ddigon agos i gynyddu ymdrechion i newid. Ar hyn o bryd, nid oedd yr amrywiol bartïon wedi penderfynu sut y byddent yn cydweithio'n effeithiol i wella'r deilliannau addysgol i blant a phobl ifanc ym Mlaenau Gwent.

## Yn 2013-14, bu newidiadau sylweddol o fewn y gwasanaethau cymdeithasol ar lefel gorfforaethol ac ar lefel adrannol. Penodwyd penaethiaid gwasanaeth newydd ar gyfer gwasanaethau oedolion a gwasanaethau plant ac yn 2013-14, daeth effaith y trefniadau arfaethedig i ailstrwythuro gwasanaethau i'r amlwg, ynghyd â'r angen i gyflawni arbedion fel y gwnaed yn ofynnol yn yr adolygiad o'r gyllideb.

81 Cyhoeddodd AGGCC ei Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad 2013-2014 ym mis Hydref 2014 ac mae adroddiad gwerthuso perfformiad blynyddol AGGCC ar gael yma.

82 Nododd AGGCC fod y Cyngor wedi bod yn destun cryn newidiadau ar lefel gorfforaethol ac ar lefel adrannol yn 2013-14. O fewn yr adran gwasanaethau cymdeithasol, arweiniodd y cyfarwyddwr y broses o ailstrwythuro a datblygu gwasanaethau. Penododd yr uwch dîm rheoli benaethiaid gwasanaeth newydd ar gyfer y gwasanaethau plant a'r gwasanaethau oedolion. Darparodd penodiadau mewnol i'r swyddi hyn gysondeb ar adeg o ansefydlogrwydd posibl. Yn ystod y flwyddyn, daeth effaith y trefniadau arfaethedig i ailstrwythuro gwasanaethau i'r amlwg, ynghyd â'r angen i gyflawni arbedion fel y gwnaed yn ofynnol yn yr adolygiad o'r gyllideb.

83 Nododd Swyddfa Archwilio Cymru feysydd o welliant corfforaethol. O ganlyniad, bu'n rhaid darparu cymorth a mewnbwn allanol er mwyn sicrhau gwelliant o ran trefniadau llywodraethu. Nododd y cyfarwyddwr ar ddiwedd 2013-14, fod tanwariant o £275,000 yng nghyllideb y gwasanaethau cymdeithasol ac roedd £1.4 miliwn pellach o arbedion wedi'u cynllunio ar gyfer 2014-15.

84 Dechreuodd y broses arfaethedig o ailstrwythuro gwasanaethau plant ddechrau 2013-14. Roedd hyn yn cynnwys datblygu timau newydd, yn dilyn ymarfer ymgynghori, a roddodd gyfleoedd i ddatblygu trefniadau gweithio newydd. Roedd y rhain yn cynnwys cysylltiadau clir â gwasanaethau ataliol a fyddai'n rhan o'r adran gwasanaethau cymdeithasol. Er y daethpwyd o hyd i rai meysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad o blant sy'n derbyn gofal, ar y cyfan, llwyddodd gwasanaethau plant i gynnal lefelau perfformiad da y flwyddyn flaenorol.

85 O ran gwasanaethau oedolion, llwyddodd y broses ailstrwythuro i ategu amcanion cenedlaethol a lleol i alluogi pobl i fod yn fwy annibynnol. Dechreuodd y broses o ad-drefnu timau â ffocws ar drefniadau cydweithio gyda chydweithwyr iechyd. Gwnaed gwaith i atgyfnerthu trefniadau comisiynu ac i wella ansawdd y gwasanaethau a gomisiynwyd. Nododd arolygiad AGGCC o drefniadau comisiynu feysydd pellach i'w gwella er mwyn sicrhau dull gweithredu strwythuredig wrth fesur canlyniadau i bobl.

86 Darparodd adroddiad y cyfarwyddwr ddarlun clir o'r sefyllfa. Ystyriodd gynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r flwyddyn flaenorol a phennodd amcanion newydd ar gyfer 2014-15. Roedd hyn yn cynnwys parodrwydd ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gan gyfeirio at drefniadau cydweithio

cyfredol ac arfaethedig gyda phartneriaid iechyd a phartneriaid eraill, yn ogystal ag ystyried modelau mwy newydd, er enghraifft, mentrau cymdeithasol ar waith. Trafododd yr adroddiad gynlluniau ar gyfer integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chynlluniau i wneud cynnydd yn hyn o beth yn 2014-15.

87 Ystyriodd y cyfarwyddwr y trefniadau i ategu'r broses o ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg neu ieithoedd eraill yr oedd eu hangen ac amlinellodd y trefniadau hynny. Roedd hyn yn cynnwys cyfeiriadau at anghenion lleol, polisi'r cyngor a hyfforddiant i staff i ategu'r broses o roi Mwy na Geiriau - y Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg ym maes Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol.

88 Dangosodd adroddiad a thystiolaeth y cyfarwyddwr fod gan y Cyngor gynlluniau yn seiliedig ar anghenion lleol a'i fod yn parhau i ymgynghori ar ddewisiadau pobl leol. Roedd hyn yn cynnwys adborth gan bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau.

89 Er bod systemau ar waith ar gyfer adolygu ansawdd, roedd angen eu diwygio a'u hatgyfnerthu er mwyn darparu fframwaith y gellid ei ddefnyddio i fesur llwyddiant o ran canlyniadau i bobl.

## Cynhaliodd AGGCC arolygiad cenedlaethol o drefniadau diogelu a chynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal sy'n ymddwyn mewn ffordd sy'n eu gwneud yn agored i niwed neu a allai beri risg

90 Yn ystod 2014-15, cynhaliodd AGGCC arolygiad o drefniadau diogelu a chynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal sy'n ymddwyn mewn ffordd sy'n eu gwneud yn agored i niwed neu a allai beri risg. Cynhaliwyd yr arolygiad fel rhan o raglen arolygiadau thematig cenedlaethol AGGCC. Cynhaliwyd y fethodoleg ar gyfer yr adolygiad ym mhob awdurdod lleol ledled Cymru, rhwng mis Ionawr a mis Mai 2014. Nod yr arolygiad cenedlaethol oedd asesu ansawdd y gwaith o gynllunio gofal ledled Cymru a ph'un a oedd yn gwneud y canlynol yn effeithiol:

- a cefnogi a diogelu plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal;
- b nodi a rheoli ymddygiad sy'n gwneud plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal yn agored i niwed ac yn peri risg iddynt;
- c hyrwyddo arfer sy'n seiliedig ar hawliau a llais y plentyn;
- ch hyrwyddo canlyniadau gwell i blant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal; a
- d hyrwyddo cydymffurfiaeth â pholisïau a chanllawiau.

Gellir dod o hyd i ganfyddiadau arolygiadau'r awdurdodau lleol unigol ac adroddiad trosolwg cenedlaethol AGGCC ar wefan AGGCC ac mae ar gael yma: adroddiad diogelu a chynllunio gofal AGGCC.

## Roedd y Cyngor yn ystyried sut i ddefnyddio data ariannol a data perfformiad o'n gwaith Cynaliadwyedd Gwasanaethau Cymdeithasol ar draws y pum cyngor yn ardal Gwent er mwyn cynllunio'r ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol yn y dyfodol

91 Fel rhan o'n gwaith Cynaliadwyedd Gwasanaethau Cymdeithasol ar draws y pum Cyngor yng Ngwent, gwnaethom lunio dogfen i'r Cyngor a oedd yn cyflwyno'r canlynol:

a y galw yn y dyfodol am wasanaethau cymdeithasol ym Mlaenau Gwent drwy feincnodi amcanestyniadau o'r boblogaeth plant a phobl hŷn; a

b chyfres o ddadansoddiadau ar ffurf graff a oedd yn cyfuno data ariannol a data perfformiad ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol ym Mlaenau Gwent dros sawl blwyddyn ac a oedd hefyd yn gosod Blaenau Gwent yng nghyd-destun y 21 cyngor arall yng Nghymru.

92 Nid oedd unrhyw argymhellion na chasgliadau o'n gwaith gan ein bod wedi rhoi pecyn data i bob cyngor a oedd yn dangos y wybodaeth o wahanol safbwynt a hwyluso gweithdy Gwent-gyfan ar gyfer Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyfarwyddwyr/Penaethiaid Cyllid i'w trafod. Cawsom adborth cadarnhaol ar yr allbwn ac rydym yn aros i weld sut y bydd y Cyngor yn defnyddio'r dull gweithredu hwn fel rhan o'i brosesau herio mewnol.

## Roedd y Cyngor yn llwyddo ar y cyfan i fodloni ei rwymedigaethau statudol o ran iechyd yr amgylchedd ond oherwydd toriadau i'r gyllideb a nifer y staff, roedd gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn wynebu trobwynt ac roedd perygl na fyddent yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau cyfredol yn effeithiol nac yn gallu ymgymryd â dyletswyddau statudol newydd

93 Ym mis Rhagfyr 2014, gwnaethom adolygu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd y Cyngor fel rhan o un o'n hastudiaethau Cymru gyfan. Ystyriodd yr astudiaeth effaith toriadau mewn adnoddau ar allu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd y Cyngor i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol.

94 Daeth ein hadolygiad i'r casgliad bod y Cyngor yn llwyddo ar y cyfan i fodloni ei rwymedigaethau statudol o ran iechyd yr amgylchedd ond oherwydd toriadau i'r gyllideb a nifer y staff, roedd gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn wynebu trobwynt ac roedd perygl na fyddent yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau cyfredol yn effeithiol nac ymgymryd â dyletswyddau statudol newydd.

95 Wrth ddod i'n casgliad, gwnaethom nodi'r canfyddiadau canlynol:

a roedd gan gynghorau lawer o ddyletswyddau statudol ym maes iechyd yr amgylchedd ond nid oedd gwariant yn cael ei ddiogelu yn ystod y cyfnod presennol o galedi ariannol, a oedd yn ei gwneud hi'n anos cyflawni blaenoriaethau strategol cenedlaethol;

b roedd y Cyngor yn darparu'r rhan fwyaf o'i wasanaethau iechyd yr amgylchedd i'r lefelau uchaf, fel y'u bernir yn erbyn y Safonau Arfer Gorau;

c rhwng 2011-12 a 2013-14, gwnaeth y Cyngor doriadau sylweddol i gyllidebau a niferoedd staff iechyd yr amgylchedd;

ch roedd y staff a ymatebodd i'n harolwg yn gadarnhaol ar y cyfan am safon y gwasanaeth iechyd yr amgylchedd a ddarperir ar hyn o bryd ond roedd ymwybyddiaeth isel o berfformiad presennol neu gynlluniau ar gyfer y dyfodol ymhlith dinasyddion; ac

d roedd dyletswyddau statudol newydd yn cael eu cyflwyno ym maes iechyd yr amgylchedd y byddai'r Cyngor yn ei chael hi'n anodd eu cyflawni.

## Roedd y Cyngor wedi gwella trefniadau ansawdd data, ond nid oedd y trefniadau hyn yn cael eu rhoi ar waith yn gyson

96 Ym mis Ionawr 2015, cynhaliwyd gwiriad ar hap gennym o ansawdd data gan adolygu chwe Dangosydd Strategol Cenedlaethol (DSC) a'u systemau ategol.

97 Wrth gynnal adolygiad manwl o'r mesurau perfformiad a ddewiswyd, cafwyd gennym fod gan y mesurau canlynol systemau data a oedd yn addas at y diben, a oedd yn cael eu cynnal yn effeithiol a lle roedd y diffiniad o'r DP wedi'i ddeall:

a SCC/002 - Canran y plant a oedd yn derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi newid ysgol unwaith neu fwy, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, am resymau ar wahân i drefniadau pontio, yn ystod y 12 mis hyd at 31 Mawrth.

b EDU/016b – Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd.

98 Roedd gan un mesur system dda ar gyfer cofnodi'r holl ddata perthnasol, ond nid oedd y diffiniad na'r canllawiau ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn cael eu dilyn yn llawn. Y mesur oedd:

a SCA/002a – Cyfradd y bobl hŷn (65 oed a throsodd) sy'n cael cymorth yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth, 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth.

99 Daethom ar draws system dda ar gyfer cofnodi'r data sydd eu hangen ar gyfer un mesur, ond roedd llwybr archwilio gwael:

a LCS/002 – Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth lle bydd yr ymwelydd yn ymgymryd â gweithgarwch corfforol.

100 Coladwyd y data ar gyfer un mesur yn unol â'r canllawiau; ond, roedd y cyfrifiad a ddefnyddiwyd yn anghywir. Y mesur oedd:

a STS/005b – Canran y priffyrdd a arolygwyd a oedd o safon glendid uchel neu dderbyniol.

101 Y mesur canlynol: THS/012 – Cyfrifwyd canran y prif ffyrdd (A), ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd/ffyrdd dosbarthiadol (B) a ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd/ffyrdd dosbarthiadol (C) sydd mewn cyflwr cyffredinol wael yn seiliedig ar ddata allanol nad oedd mewn gwirionedd yn bosibl i'r Cyngor gyfrannu ato na'u newid.

## Roedd y Cyngor wedi ymrwymo'r rhan fwyaf o'i Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn ond oherwydd rhai gwendidau o ran ansawdd ac amrywiaeth y wybodaeth a oedd ar gael i'r cyhoedd a'i systemau ar gyfer rheoli ei gyllid, nid oedd bob amser yn glir p'un a oedd y rheini â'r anghenion mwyaf yn cael help

102 Roedd Deddf Diwygio Lles 2012 yn dynodi newid mawr i'r ffordd y caiff budd-daliadau eu gweinyddu a'u dosbarthu a byddai'n cael effaith sylweddol ar lawer o ddinasyddion. Ym mis Ebrill 2011, dechreuodd Llywodraeth y DU ar raglen ddiwygio a fydd yn arwain at gyflwyno'r Credyd Cynhwysol fesul cam rhwng mis Hydref 2013 a 2017. Un o brif nodweddion cynlluniau Llywodraeth y DU yw'r newidiadau i Fudd-dal Tai, sy'n ceisio lleihau gwariant blynyddol tua £2.3 biliwn. Bydd y newidiadau hyn yn golygu y bydd miloedd o gartrefi ym Mhrydain Fawr yn cael llai o fudd-daliadau, gan arwain at ddewisiadau anodd iddynt am y ffordd y maent yn defnyddio eu harian ac yn ymdopi'n ariannol o ddydd i ddydd.

103 Ym mis Ionawr 2015, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ei adroddiad ar ba mor dda y mae cynghorau yn rheoli effaith newidiadau diwygio lles ar denantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru. Adolygodd ei adroddiad y broses o reoli a defnyddio Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn gan gynghorau yng Nghymru a daeth i'r casgliad fod anghysondebau a gwendidau sylweddol yn y broses o ddyrannu, dosbarthu, gweinyddu a defnyddio'r taliadau hyn. Gwnaethom waith dilynol mewn cynghorau unigol.

104 Canfu ein hadolygiad ym Mlaenau Gwent er bod adran ar wefan y Cyngor ar gyfer taliadau dai yn ôl disgresiwn, nad oedd y ddolen i weld y wybodaeth honno yn gweithio. Nid oedd ffurflen Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn ar-lein i gwsmeriaid ei chwblhau, ac nid oedd unrhyw wybodaeth yn cael ei darparu i roi gwybod i ymgeiswyr sut i wneud cais; yn nodi blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer rhoi cymorth; na gwybodaeth am yr hawl i wneud cais am adolygiad o benderfyniadau. Roedd y Cyngor yn hysbysu ymgeiswyr am eu hawl i daliadau tai yn ôl disgresiwn, y broses ar gyfer gwneud cais a chwblhau ffurflenni cais drwy gyfweliadau unigol wyneb-yn-wyneb. Er bod hyn yn rhoi lefelau cymorth da i ymgeiswyr, oherwydd anawsterau daearyddol ac anawsterau o ran trafnidiaeth o fewn Blaenau Gwent, gallai hyn ei gwneud hi'n anodd i ymgeiswyr ddod i gyfweliadau a gwneud cais yn bersonol yn swyddfeydd y Cyngor. Roedd y Cyngor yn manteisio ar y cyfle i hysbysu cwsmeriaid am y broses adolygu ar yr un pryd.

105 Roedd y Cyngor wedi rhoi prosesau mewnol ar waith ar gyfer gweinyddu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn gan gynnwys cyd-weithgor yn cynnwys aelodau o'r timau budd-dal tai ac Opsiynau Tai. Fodd bynnag, nid oedd dogfen bolisi benodol yn nodi blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer defnyddio Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn na sut roedd y broses o dalu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn yn gysylltiedig â strategaeth neu bolisi ehangach gan y Cyngor ar gyfer diwygio lles. Roedd y Cyngor yn bwriadu mabwysiadu trefniant arfer da Cymru gyfan sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ar gyfer gweinyddu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn.

106 Roedd y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ddarparu cryn dipyn o wybodaeth, a ddefnyddiwyd i nodi incwm a gwariant yr unigolyn. Er enghraifft, roedd y Cyngor yn gofyn am dystiolaeth fanwl gan gynnwys costau ar gyfer: siopa, nwy, trydan, ardrethi dŵr, teledu lloeren, trwydded teledu, yswiriant, treth car, tanwydd, trafnidiaeth gyhoeddus, prydau bwyd, anifeiliaid anwes, dillad, benthyciadau, cardiau credyd, dyledion ac ati, taliadau cynhaliaeth, ffôn symudol, tybaco ac unrhyw wariant arall. Gallai'r swm o wybodaeth y gofynnir amdani olygu na fydd pobl agored i niwed yn gwneud cais. Os nad oedd yr ymgeisydd yn darparu unrhyw dystiolaeth, roedd y Cyngor yn defnyddio symiau safonol i brosesu'r cais am Daliad Tai yn ôl Disgresiwn. Roedd y Cyngor wrthi'n diweddaru ei ffurflen a'i weithdrefnau asesu er mwyn ei gwneud hi'n haws i bobl wneud cais am gymorth a gwella cysondeb o ran y penderfyniadau a wneir fel rhan o'r broses o gyflwyno prosiect Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn Cymru gyfan.

107 Roedd gan y Cyngor systemau ar waith i fonitro faint roedd wedi'i wario yn erbyn ei ddyraniad gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). Roedd y Cyngor hefyd yn monitro faint o gwsmeriaid y dyfarnwyd Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn iddynt gan gynnwys nifer y landlordiaid a gafodd gymorth. Roedd y Cyngor hefyd yn coladu gwybodaeth a oedd yn asesu effaith Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn, gan gofnodi'r rheswm dros ddyfarnu'r taliad (megis tanddeiliadaeth, cap ar fudd-daliadau a rhent o ran costau ymlaen llaw/symud). Fodd bynnag, nid oedd yn glir sut roedd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i wella polisi neu strategaeth gwrth-dlodi neu ddiwygio lles y Cyngor.

108 Ar ddiwedd mis Tachwedd 2014, roedd y Cyngor wedi gwario £170,256 (85.4 y cant) o'i ddyraniad gan DWP, sef £199,387. Roedd y Cyngor wedi derbyn 670 o geisiadau, y cymeradwywyd 430 ohonynt ac y dyfarnwyd Taliad Tai yn ôl Disgresiwn iddynt ac y gwrthodwyd 240 ohonynt.

## Nid yw dull gweithredu'r Cyngor o hyrwyddo'r Gymraeg wedi'i ddatblygu'n ddigonol o hyd, roedd y Cyngor yn cydnabod hyn ac yn cymryd camau i wella trefniadau mewn rhai meysydd, ond roedd angen gwneud rhagor o waith

109 Crëwyd rôl Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Daeth pwerau newydd i orfodi safonau ar sefydliadau i rym drwy is-ddeddfwriaeth ar 31 Mawrth 2015. Parhaodd y Comisiynydd i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg yn rhinwedd y pwerau a etifeddwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

110 Gweithiodd Comisiynydd y Gymraeg gyda phob cyngor yng Nghymru i arolygu cynlluniau iaith a rhoi cyngor ar y broses o'u rhoi ar waith. Mae cyfrifoldeb ar gynghorau i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob cyngor wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro, yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu gwybodaeth bellach yn ôl yr angen.

111 Roedd canolfan gyswllt y Cyngor yn cyflogi un siaradwr Cymraeg, ond ni ddarperir unrhyw opsiwn Cymraeg wrth ffonio'r rhif ffôn a hysbysebir. Cymerwyd camau i wella'r broses o gofnodi sgiliau iaith y gweithlu, ond roedd dealltwriaeth y Cyngor o'r sefyllfa yn parhau'n anghyflawn. Roedd 85 y cant o dudalennau'r wefan ar gael yn Gymraeg, a disgwylid i wefan recriwtio ddwyieithog newydd gael ei chyhoeddi yn ystod y flwyddyn nesaf. Roedd y Cyngor yn darparu rhaglen flynyddol o hyfforddiant iaith i staff, gydag wyth aelod o staff yn cwblhau 'cwrs rhagflas' deuddydd. Nid oedd hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn cael ei ddarparu. Nid oedd unrhyw wybodaeth yn cael ei darparu yn yr adroddiad blynyddol am drefniadau'r Cyngor i brif-ffrydio'r Gymraeg i'w bolisïau a'i fentrau, nac am ei drefniadau i sicrhau bod gwasanaethau a ddarparwyd ar ei ran gan eraill yn cydymffurfio â'r cynllun iaith Gymraeg.

# Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2 – Archwiliad o Gynllun Gwella Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent 2014-15

## Tystysgrif

Ardystiaf fy mod wedi archwilio Cynllun Gwella Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (y Cyngor) yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio ei gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau i:

- wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- gwneud trefniadau i sicrhau y caiff ei amcanion gwella eu cyflawni; a
- gwneud trefniadau i arfer ei swyddogaethau er mwyn sicrhau y cyrhaeddir unrhyw safon perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi, neu ar ôl y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella ac am y wybodaeth a nodir ynddo. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Fel archwilydd y Cyngor mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur, archwilio'r Cynllun Gwella, ardystio fy mod wedi gwneud hynny, a chadarnhau a wyf yn credu bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau i baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella yn unol â gofynion statudol a nodir yn adran 15 ac mewn canllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad o'r Cynllun Gwella

At ddibenion fy ngwaith archwilio, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, byddaf yn derbyn ei fod hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb y wybodaeth nac ar b'un a ellir cyflawni'r Cynllun Gwella a gyhoeddwyd gan y Cyngor. Efallai y bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ei wneud o dan adran 18 o'r Mesur yn ystyried y materion hyn. Felly, roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella'r Cyngor yn cynnwys adolygu'r cynllun er mwyn nodi a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ac a oedd y Cyngor wedi ystyried canllawiau statudol wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur yn unig i nodi pob gwendid neu gyfle i wella.

Huw Vaughan Thomas

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

COPI I: Lesley Griffiths, Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

Non Jenkins, Rheolwr

Jackie Joyce, Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad

# Atodiad 3 – Archwiliad o asesiad o berfformiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent 2013-14

## Tystysgrif

Ardystiaf fy mod wedi archwilio asesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (y Cyngor) o'i berfformiad yn 2013-14 yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(2), (3), (8) a (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi asesiad bob blwyddyn sy'n disgrifio ei berfformiad o ran:

- cyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau;
- cyflawni'r amcanion gwella y mae wedi'u pennu iddo'i hun;
- drwy gyfeirio at ddangosyddion perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru a dangosyddion perfformiad hunanosodedig; a
- chyrraedd unrhyw safonau perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru a safonau perfformiad hunanosodedig.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei asesiad cyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol sy'n dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hi, neu erbyn y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth gyhoeddi ei asesiad.

Fel archwilydd y Cyngor, mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur, gynnal archwiliad er mwyn nodi a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad, ardystio fy mod wedi gwneud hynny, a chyflwyno adroddiad i nodi a wyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn adran 15 a chanllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad

At ddibenion fy ngwaith archwilio, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, byddaf yn derbyn ei fod hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb y wybodaeth. Efallai y bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ei wneud o dan adran 18 o'r Mesur yn ystyried y materion hyn. Felly, roedd fy archwiliad o asesiad y Cyngor o'i berfformiad yn cynnwys adolygu cyhoeddiad y Cyngor er mwyn nodi a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r asesiad yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ac a oedd y Cyngor wedi ystyried canllawiau statudol wrth ei baratoi a'i gyhoeddi.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur yn unig i nodi pob gwendid neu gyfle i wella.

Huw Vaughan Thomas

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

COPI I: Lesley Griffiths, Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

Non Jenkins, Rheolwr

Dave Wilson, Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad

# Atodiad 4 – Llythyr Archwilio Blynyddol

Mr David Waggett
Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Swyddfeydd Bwrdeistrefol
Y Ganolfan Ddinesig
Glynebwy
NP23 6XB

Annwyl David

**Llythyr Archwilio Blynyddol – Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent 2013-14**

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 8 Hydref 2014, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Hysbyswyd aelodau'r Pwyllgor Archwilio am y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o'r cyfrifon yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 29 Medi 2014, a chyflwynir adroddiad manylach maes o law.

## Mae'r Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i'r argymhellion statudol a wnaed yn 2013 gan yr Archwilydd Penodedig ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

Roedd fy Llythyr Archwilio Blynyddol ar gyfer 2012-13 a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2013 yn cynnwys Argymhelliad Statudol o dan Adran 25(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004. Roedd yr argymhelliad yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud y canlynol:

- gweithredu ar unwaith i nodi a chymeradwyo'r camau gweithredu sydd eu hangen i sicrhau cyllideb gyfreithiol a mantoledig ar gyfer 2014-15; a
- chytuno ar strategaeth Ariannol Tymor Canolig a fydd yn galluogi'r Cyngor i weithredu o fewn ei adnoddau.

Roedd y llythyr hefyd yn cyfeirio at y ffaith fod llythyr Asesiad Gwella Archwilydd Cyffredinol Cymru dyddiedig 2il Hydref 2013 yn cynnwys dau argymhelliad statudol ar gyfer gwella i ymdrin â'r gwendidau a nodwyd o ran trefniadau cynllunio ariannol a chraffu'r Cyngor.

Argymhellodd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd y dylai'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth ddefnyddio ei phwerau o dan Adran 28 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) i roi cymorth i'r Cyngor i ymdrin â'i anawsterau ariannol difrifol ac i'w alluogi i gymryd y camau di-oed a sylweddol sydd eu hangen. Gweithredodd y Gweinidog ar yr argymhelliad hwn a rhoddwyd pecyn o gymorth priodol i'r Cyngor.

Rwyf i a'r Archwilydd Cyffredinol wedi monitro cynnydd y Cyngor wrth ymdrin â'n priod argymhellion yn ystod y deuddeg mis diwethaf ac wedi dod i'r casgliad bod y Cyngor, yn ystod 2013-14 ac hyd yn hyn yn 2014-15, gyda chymorth cynghorwyr Llywodraeth Cymru, wedi ymateb yn gadarnhaol i'r argymhellion. Wrth wneud hynny, mae'r Cyngor wedi cymryd camau priodol i wella ei drefniadau rheoli ariannol. Er ei bod yn rhy gynnar i gadarnhau p'un a fydd y camau gweithredu a gymerwyd hyd yn hyn yn cyflawni'r amrywiaeth llawn o arbedion sydd eu hangen, mae'r cynnydd a wnaed yn galonogol.

Mae'r trefniadau newydd a gyflwynwyd yn cynnwys:

- Strategaeth gyffredinol, Rhaglen Trawsnewid Blaenau Gwent 2013-2017. Dyma'r fframwaith y bwriedir i'r Cyngor ei ddefnyddio i roi ei agenda drawsnewid ar waith. Nodau'r Rhaglen Trawsnewid yw sicrhau bod pob prosiect a ffrwd waith sylweddol yn cael eu cydgysylltu a'u monitro o fewn un cynllun a bod y Cyngor yn cadw rheolaeth gadarn dros y cynnydd a wneir wrth gyflawni blaenoriaethau ariannol a strategol allweddol.
- Trefniadau misol i Grŵp Llywio'r Rhaglen fonitro cynlluniau arbedion, sydd wedi atgyfnerthu trefniadau rheoli a rheolaeth ariannol y Cyngor.
- Trefniadau newydd ar gyfer Adrodd ar Gyllid a Pherfformiad sy'n dwyn gwybodaeth ariannol a gwybodaeth am berfformiad ynghyd. Mae gwybodaeth o'r adroddiad Cyllid a Pherfformiad newydd yn ategu gwybodaeth a oedd yn bodoli eisoes am gyllid a pherfformiad a chaiff ei gyflwyno i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, y Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol fel y pwyllgor arweiniol ar gyfer busnes corfforaethol.

- Is-grŵp o'r Pwyllgor Gweithredol, sef yr is grŵp Pwysau cost, a gaiff ei gadeirio gan y Dirprwy Arweinydd, i fonitro cynlluniau gweithredu sy'n ymdrin â phwysau cost yn ystod y flwyddyn.

Mae'n bwysig bod y Cyngor yn parhau i adeiladu ar y cynnydd a wnaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r Cyngor yn parhau i wynebu heriau ariannol sylweddol yn y dyfodol ac felly mae'n hanfodol ei fod yn parhau i fonitro effeithiolrwydd y trefniadau a gyflwynwyd ganddo yn ofalus. Dylid parhau i ddatblygu'r trefniadau a'u mireinio fel y bo'n briodol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn parhau'n ariannol gynaliadwy yn y dyfodol.

## Rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at y meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'i brofi eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 08 Hydref 2014.

## Nid yw'r gwaith a wnaed gennyf hyd yma yn ardystio hawliadau a ffurflenni grant wedi nodi unrhyw faterion sylweddol a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2014-15 na systemau ariannol allweddol

Nid yw fy ngwaith ardystio grantiau ar eich hawliau a'ch ffurflenni grant hyd yn hyn wedi nodi unrhyw faterion sylweddol a fyddai'n effeithio ar eich cyfrifon ar gyfer 2014-15 na'r systemau ariannol allweddol. Bydd adroddiad manylach ar fy ngwaith ardystio grantiau yn dilyn yn 2015 unwaith y bydd rhaglen waith ardystio eleni wedi'i chwblhau.

Ar hyn o bryd, disgwylir y bydd y ffi archwilio ariannol ar gyfer 2013-14 yn unol â'r ffi y cytunwyd arni, sef £191,489, fel y manylir mewn gohebiaeth a anfonwyd at y Prif Weithredwr dyddiedig 1 Mai 2014.

Yn gywir



Derwyn Owen

**Cyfarwyddwr Archwilio Ariannol**

**Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig**

# Atodiad 5 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2014-15

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Mai 2014 | Craffu Da?<br>Cwestiwn Da! | A1 | Egluro rôl aelodau gweithredol ac uwch swyddogion wrth gyfrannu at y broses graffu. |
| | | A2 | Sicrhau bod aelodau craffu, ac yn benodol cadeiryddion craffu, yn cael hyfforddiant a chymorth er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar yr holl sgiliau sydd eu hangen i gynnal gwaith craffu effeithiol. |
| | | A3 | Datblygu prosesau blaenraglennu craffu ymhellach er mwyn:<br>• darparu rhesymeg glir dros ddewis pynciau;<br>• canolbwyntio mwy ar ganlyniadau;<br>• sicrhau y defnyddir y dull craffu mwyaf addas ar gyfer y maes pwnc a'r canlyniad dymunol; a<br>• chysoni rhaglenni craffu â threfniadau rheoli perfformiad, hunanwerthuso a gwella'r cyngor. |
| | | A4 | Sicrhau bod gwaith craffu yn defnyddio gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio yn effeithiol a bod ei weithgareddau yn ategu gwaith cyrff adolygu allanol. |
| | | A6 | Sicrhau y caiff effaith craffu ei gwerthuso'n briodol ac y gweithredir arni er mwyn gwella effeithiolrwydd y swyddogaeth; gan gynnwys gwneud gwaith dilynol ar gamau gweithredu arfaethedig ac archwilio canlyniadau. |
| | | A7 | Cynnal hunanwerthusiadau rheolaidd o drefniadau craffu gan ddefnyddio 'canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol' a ddatblygwyd gan Rwydwaith Swyddogion Craffu Cymru. |
| | | A8 | Rhoi cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella craffu ar waith yn seiliedig ar astudiaeth wella Swyddfa Archwilio Cymru. |
| | | A9 | Mabwysiadu 10 Egwyddor Cyfranogaeth Cymru ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd wrth wella'r ffordd y mae'r swyddogaeth graffu yn ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
| --- | --- | --- | --- |
| Gorffennaf 2014 | Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant - Canfyddiadau adolygiad o gynghorau yng Nghymru | A1 | Ynghyd â phartneriaid, mapio ac adolygu'r gwariant ar wasanaethau NEET er mwyn deall yn well pa adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r Fframwaith. |
| | | A2 | Egluro eu dull strategol o ostwng cyfran y bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET yn ogystal â'u dull ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed. |
| | | A3 | Canolbwyntio ar bobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau sylweddol neu luosog i ymgysylltu ag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn hytrach na'r rhai sy'n fwy tebygol o ailymgysylltu heb lawer o gymorth ychwanegol. |
| | | A4 | Datblygu eu hamcanion a'u targedau ar gyfer lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET fel bod modd eu dwyn i gyfrif ac fel bod eu gwaith yn gyson â thargedau ac amcanion Llywodraeth Cymru. |
| | | A5 | Sicrhau bod aelodau etholedig a phartneriaid yn deall yn llwyr fod gan gynghorau gyfrifoldeb clir i arwain a chydgysylltu gwasanaethau ieuenctid i bobl ifanc 16-24 oed. |
| | | A6 | Gwella prosesau i werthuso effeithiolrwydd a gwerth am arian cymharol y gwasanaethau a'r ymyriadau yn eu hardal y bwriedir iddynt helpu i ostwng cyfran y bobl ifanc sy'n NEET. |


| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Hydref 2014 | Cyflawni â llai - yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion | A1 Diwygio'r safonau arfer gorau er mwyn:<br>• cysoni gwaith ym maes iechyd yr amgylchedd â blaenoriaethau strategol cenedlaethol;<br>• nodi cyfraniad ehangach iechyd yr amgylchedd at gyflawni blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru; a<br>• nodi buddiannau ac effaith gwasanaethau iechyd yr amgylchedd o ran diogelu dinasyddion. |
| | | A2 Rhoi'r sgiliau a'r cymorth sydd eu hangen ar gadeiryddion ac aelodau pwyllgorau craffu i graffu ar berfformiad gwasanaethau, cynlluniau arbed ac effaith gostyngiadau cyllidebol a'u herio'n effeithiol. |
| | | A3 Ymgysylltu'n well â thrigolion lleol ynghylch cynlluniau i dorri cyllidebau a newid gwasanaethau drwy:<br>• ymgynghori â thrigolion ar newidiadau arfaethedig mewn gwasanaethau a defnyddio'r canfyddiadau i lywio penderfyniadau;<br>• amlinellu pa wasanaethau a gaiff eu torri a sut y bydd y toriadau hyn yn effeithio ar drigolion; a<br>• nodi cynlluniau i gynyddu taliadau neu newid safonau gwasanaeth. |
| | | A4 Gwella effeithlonrwydd a gwerth am arian drwy:<br>• Nodi dyletswyddau statudol ac anstatudol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau.<br>• Cytuno ar flaenoriaethau iechyd yr amgylchedd ar gyfer y dyfodol a rôl cynghorau wrth gyflawni'r rhain.<br>• Pennu 'safon dderbyniol o berfformiad' ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd (uchaf ac isaf) a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt ymhlith dinasyddion.<br>• Gwella effeithlonrwydd a chynnal perfformiad ar y lefel y cytunwyd arni drwy wneud y canlynol:<br>– cydweithio a/neu integreiddio ag eraill er mwyn lleihau costau a/neu wella ansawdd;<br>– gosod gwasanaethau ar gontractau allanol lle y gellir eu darparu mewn ffordd fwy cost-effeithiol yn unol â'r safonau y cytunwyd arnynt;<br>– cyflwyno a/neu gynyddu taliadau a chanolbwyntio ar weithgarwch sy'n cynhyrchu incwm;<br>– defnyddio grantiau mewn ffordd strategol er mwyn sicrhau'r effaith a'r elw mwyaf; a<br>– lleihau gweithgareddau er mwyn canolbwyntio ar flaenoriaethau statudol a strategol craidd. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Hydref 2014 | Cyflawni â llai - yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion | A5 | Gwella gwaith cynllunio strategol drwy:<br>• nodi, casglu a dadansoddi data ariannol, data ar berfformiad a data ar alw/angen mewn perthynas â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd;<br>• dadansoddi data a gasglwyd er mwyn llywio a deall y gydberthynas rhwng 'cost: budd: effaith' a defnyddio'r wybodaeth hon i ategu penderfyniadau ar ddyfodol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cyngor; a<br>• chytuno sut y gellir defnyddio gwybodaeth ddigidol i gynllunio a datblygu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y dyfodol. |
| Ionawr 2015 | Rheoli Effaith Diwygiadau Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru | A1 | Gwella prosesau cynllunio strategol a chydgysylltu gweithgarwch yn well er mwyn mynd i'r afael ag effaith y diwygiadau lles ar denantiaid tai cymdeithasol drwy sicrhau bod cynlluniau gweithredu cynhwysfawr ar waith sy'n ymdrin â gwaith holl adrannau perthnasol cynghorau, cymdeithasau tai a gwaith rhanddeiliaid allanol. |
| | | A2 | Gwella trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd am ddiwygiadau lles drwy wneud y canlynol:<br>• penodi aelodau a swyddogion arweiniol i gymryd cyfrifoldeb am ddarparu arweiniad strategol mewn perthynas â'r diwygiadau lles a bod yn atebol am berfformiad; a<br>• sicrhau bod aelodau yn cael hyfforddiant digonol a briffiau rheolaidd ar y diwygiadau lles er mwyn gallu herio perfformiad a phenderfyniadau a chraffu arnynt. |
| | | A3 | Sicrhau bod perfformiad o ran y diwygiadau lles yn cael ei reoli'n effeithiol drwy wneud y canlynol:<br>• pennu mesurau priodol i alluogi aelodau, swyddogion a'r cyhoedd i lunio barn ar gynnydd wrth gyflawni camau gweithredu;<br>• sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn ymdrin â gwaith yr holl asiantaethau perthnasol ac yn enwedig y cymdeithasau tai; a<br>• phennu mesurau i lunio barn ar effaith ehangach y diwygiadau lles. |
| | | A4 | Atgyfnerthu'r ffordd y caiff risgiau o ran y diwygiadau lles eu rheoli drwy greu un dull corfforaethol o weithredu sy'n cydgysylltu gweithgarwch ar draws y cyngor a gwaith gan eraill er mwyn rhoi digon o sicrwydd bod yr holl gamau angenrheidiol a phriodol i liniaru risg yn cael eu cymryd. |


| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Ionawr 2015 | Rheoli Effaith Diwygiadau Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru | A5 | Ymgysylltu'n well â thenantiaid sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr drwy wneud y canlynol:<br>• darparu cyngor a gwybodaeth reolaidd am yr opsiynau sydd ar gael iddynt ymdrin ag effaith ariannol y newid yn eu hamgylchiadau;<br>• hyrwyddo llinell gymorth 'Mae budd-daliadau yn newid'; a<br>• chynorthwyo'r tenantiaid hynny sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr yn benodol i gymryd rhan mewn cynlluniau cyflogaeth rhanbarthol/cenedlaethol. |
| | | A7 | Gwella'r ffordd y caiff Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn eu rheoli a'u defnyddio a gwella mynediad iddynt drwy:<br>• sefydlu polisi neu ganllaw clir i'r cyhoedd, sydd ar gael ar ffurf copi caled ac ar-lein, sy'n nodi polisi a threfniadau'r cyngor ar gyfer gweinyddu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn;<br>• diffinio'n glir y costau tai cymwys ac anghymwys a gaiff eu cwmpasu gan Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn mewn ffurflenni cais, dogfennau polisi a thaflenni canllaw i ymgeiswyr;<br>• nodi'n glir y cyfnodau hwyaf/byrraf posibl y caiff y taliadau hyn eu talu;<br>• pennu a chyhoeddi'r amserlen y bydd yn rhaid i'r cyngor ei dilyn wrth benderfynu ar geisiadau am Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn;<br>• cynnwys gwybodaeth mewn deunyddiau cyhoeddus ar bolisi'r cyngor ar yr hawl i adolygu neu apelio yn erbyn penderfyniad a'r amserlenni a'r broses y dylid eu dilyn wrth benderfynu ar y rhain; a<br>• diffinio'n glir y grwpiau â blaenoriaeth ar gyfer Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn mewn deunyddiau cyhoeddus er mwyn sicrhau y gall y rheini sy'n ceisio cymorth, a'r asiantaethau sy'n eu cynorthwyo, asesu p'un a yw'r taliadau hyn yn opsiwn ymarferol i ddiwallu eu hanghenion ariannol a'u hanghenion o ran tai. |

# Atodiad 6 – Gwybodaeth ddefnyddiol am adnoddau Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent


Cyfanswm Incwm Gros 2013-14





Cyfanswm Incwm a Gwariant




Nifer y staff sy'n cyfateb i weithio oriau llawn amser 2010-11 i 2012-13




Cyfanswm Gwariant Gros yn ôl maes gwasanaeth



Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru